# CANLLAW AR GYNALIADWYEDD ARIANNOL

## Profiadau o'r Rhwydwaith SFP a thu hwnt

Ymchwil a thestun gan Sarah Davies a Ben Messer, Food Matters

Ionawr 2018

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 3**
1.1 Sut mae hyn yn ymwneud â ni? ..... 3
1.2 Beth sydd dan sylw yn y canllaw hwn? ..... 3
1.3 Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn? ..... 4
1.4 Strwythur y canllaw ..... 4
**2. Y cyd-destun cenedlaethol ..... 5**
2.1 Ffynonellau cyllid SFP ..... 5
**3. Cynllunio strategol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol ..... 6**
3.1 Penderfyniadau ar strwythur sefydliadol ..... 6
3.2 Cydweddu â strategaethau lleol ..... 11
3.3 Dadansoddi rhanddeiliaid a rheoli cysylltiadau ..... 12
3.4 Rheoli costau ..... 13
**4. Datblygu cynllun cyllido cynaliadwy ..... 15**
4.1 Cam 1: Ymchwilio ..... 15
4.2 Cam 2: Trafod ..... 15
4.3 Cam 3: Cynllunio ..... 17
**5. Arallgyfeirio cyllido: profiad o'r Rhwydwaith SFP ..... 19**
5.1 Cyllido gan y sector preifat ..... 19
5.2 Cyllido torfol ..... 20
5.3 Incwm a enillir ..... 22
5.3.2 Model menter gymdeithasol: Good Food in Greenwich ..... 23
5.4 Ffocysau bwyd ..... 26
5.5 Cyllido gan y sector cyhoeddus ..... 27
**6. Cyllid ar gyfer cynghorau polisi bwyd – beth sy'n digwydd yn UDA ..... 28**
6.1 Sefydliadau preifat ..... 28
6.2 Cyllido gan Lywodraeth ..... 28
6.3 Ffynonellau ariannol eraill a chymorth o fath arall ..... 29
**7. Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol ..... 30**
7.1 Cynllunio strategol a rheolaeth ariannol ..... 30
7.2 Ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau ..... 30
7.3 Cyllido gan y sector preifat ..... 30
7.4 Contractau a chyllid y sector cyhoeddus ..... 30
7.5 Dull y fenter gymdeithasol ..... 31
7.6 Cyfleoedd presennol ..... 31
7.7 Adnoddau ar-lein / cyllido torfol ..... 31
7.8 Cynghorau polisi bwyd ..... 31

# 1. Cyflwyniad

Mae cynaliadwyedd ariannol yn ymwneud â chynnal iechyd, diogeledd ac effeithiolrwydd eich partneriaeth fwyd yn y tymor hir. Mae'n golygu edrych yn bellach na'r tymor byr er mwyn sicrhau sylfaen incwm sy'n fwy cadarn a dibynadwy. Mae SFP yn cydnabod y byddai'r nod hwn yn gallu ymddangos braidd yn uchelgeisiol yn y cyd-destun presennol, oherwydd bydd hyd yn oed y partneriaethau bwyd llwyddiannus sydd â'r cynlluniau a chysylltiadau gorau yn gallu mynd i drafferthion yn wyneb ailstrwythuro mewn awdurdodau lleol, torri cyllidebau, newid ym mlaenoriaethau llywodraeth a Brexit! Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu i gryfhau'ch sefyllfa ariannol a lleihau'r risg.

Wrth ysgrifennu'r canllaw hwn, roeddem yn ymwybodol iawn hefyd o'r capasiti cyfyngedig sydd gan nifer o bartneriaethau bwyd yn y Rhwydwaith SFP. Yn aml, ni fydd ond un aelod staff rhan-amser neu efallai neb o gwbl. Gwyddom fod staff yn gallu teimlo bod ganddynt lawer ar eu plât eisoes ac nad oes ganddynt le i ystyried cyllid tymor hir. Rhaid i'r bwrdd neu grŵp llywio chwarae eu rhan hefyd wrth sicrhau cynaliadwyedd ariannol, yn ogystal â'r cydgysylltydd, ac rydym yn gobeithio y bydd rhai o'r cynghorion ymarferol ac enghreifftiau yn y canllaw hwn yn eu helpu i fynd i'r afael â hyn.

## 1.1 Sut mae hyn yn ymwneud â ni?

Bydd cynaliadwyedd ariannol yn golygu pethau gwahanol i wahanol aelodau o SFP. Pa fath bynnag o strwythur sydd gennych chi, pa un a ydych yn sefydliad â chyfansoddiad annibynnol, yn rhan o'r sector cyhoeddus neu'n cael eich lletya gan sefydliad trydydd sector, bydd angen cael adnoddau o ryw fath i gyflawni'r swyddogaethau hanfodol o weinyddu a chydgysylltu gwaith eich partneriaeth fwyd. Mae nifer o bartneriaethau bwyd hefyd wedi'u sefydlu i ddarparu gwasanaethau neu brosiectau eu hunain, felly byddant yn ceisio sicrhau cyllid i gyflawni'r agweddau hyn ar eu gwaith hefyd.

## 1.2 Beth sydd dan sylw yn y canllaw hwn?

Oherwydd y gwahaniaethau rhwng partneriaethau bwyd, nid oes un ffordd benodol o weithredu a fydd yn addas i bawb o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Er hynny, mae rhai meysydd allweddol i'w hystyried, yn cynnwys: cynllunio strategol, arallgyfeirio cyllido, rheoli rhanddeiliaid a rhoi gwybod am lwyddiant mewn ffordd effeithiol. Nid helpu aelodau i lunio ceisiadau am gyllid yw unig amcan y canllaw hwn (mae digon o ganllawiau ar gael ar hynny yn barod).Yn hytrach, mae'n ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- Sut y gallwn gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd ariannol o'r cychwyn?
- Sut y gallwn ein rhoi ein hunain yn y lle gorau i dderbyn cyllid?
- Sut y gallwn sicrhau amrywiaeth o ffynonellau cyllid?
- Pa gyfleoedd i greu incwm y gallem eu hystyried?

I'r perwyl hwn, mae'r canllaw yn ceisio cynnig syniadau ymarferol a chymorth i symud ymlaen yn y meysydd hyn, gan dynnu ar brofiad aelodau SFP lle bynnag y bo modd.

## 1.3 Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â datblygu partneriaeth fwyd. Bydd o gymorth nid yn unig i gydgysylltwyr partneriaethau bwyd ond hefyd i aelodau byrddau a grwpiau llywio sy'n ceisio cynyddu cynaliadwyedd ariannol eu partneriaeth.

## 1.4 Strwythur y canllaw

- Mae **Adran 2** yn darparu trosolwg byr ar yr hinsawdd bresennol o ran cyllid a hefyd ar gymysgedd y ffynonellau cyllido ymysg aelodau'r Rhwydwaith SFP.
- Mae **Adran 3** yn edrych ar gynllunio strategol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol; mae enghreifftiau o Rydychen a Brighton yn dangos dau ddull gwahanol o weithredu. Rydym hefyd yn edrych ar y ffordd y mae partneriaethau bwyd yn ceisio rheoli eu rhanddeiliaid, cydweddu â pholisi a rheoli eu materion ariannol.
- Mae **Adran 4** yn trafod dull o ysgrifennu strategaeth gyllido fesul cam, yn cynnwys amlinelliad o weithdy ar gyllido.
- Mae **Adran 5** yn rhoi sylw i brofiadau aelodau SFP a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt wrth sicrhau cyllid o ffynonellau amrywiol, yn cynnwys y sector preifat (Bournemouth); cyllido torfol(Llundain a Bryste); incwm a enillir (Greenwich); ymgynghoriaeth (Stockport); ffocysau bwyd (Durham) a'r sector cyhoeddus.
- Mae **Adran 6** yn darparu trosolwg byr ar y ffordd y mae Cynghorau Polisi Bwyd yn cael eu cyllido yn UDA.
- Mae **Adran 7** yn darparu dolenni i gael rhagor o wybodaeth am gynaliadwyedd ariannol.

# 2. Y cyd-destun cenedlaethol

Mae’r hinsawdd bresennol o ran cyllido ar lefel genedlaethol yn un anodd a bydd yn parhau felly yn ôl pob golwg. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos elusennau bach a sefydliadau nid-er-elw fel aelodau SFP.

Mae mesurau cyni wedi arwain at gyfnod hir o ansicrwydd a chrebachu economaidd. Mae partneriaethau bwyd yn cystadlu â nifer o flaenoriaethau eraill mewn cyfnod lle mae gwariant yn gostwng mewn meysydd statudol. Gwelir bod y gyllideb sydd wedi’i chlustnodi ar gyfer Iechyd Cyhoeddus, sef y brif gynhaliaeth i nifer o bartneriaethau bwyd, yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn a dim ond tan fis Mawrth 2019 y rhoddwyd sicrwydd y bydd ar gael. Ar ben hynny, mae Grant Llywodraeth Leol yr Adran Iechyd yn cael ei ddirwyn i ben wrth i’r llywodraeth ymgynghori ar fecanwaith cyllido newydd wedi’i seilio ar gadw 100% o ardrethi busnes gan awdurdodau lleol. Unwaith y bydd y cynllun newydd wedi’i gyflwyno, bydd iechyd cyhoeddus yn cael ei gyllido drwy ardrethi busnes a gedwir. Mae nifer o flaenoriaethau ym maes iechyd cyhoeddus ac nid yw gordewdra yn cael ei ystyried yn swyddogaeth iechyd cyhoeddus ganolog.

Yn gyffredinol, mae’r sector cyhoeddus hefyd yn troi oddi wrth gyllid grant ac at gontractau cyllido. Wrth i’r contractau hyn gynyddu o ran eu maint, gwelir cynnydd ym maint y cyllid a ddyfernir i’r sefydliadau nid-er-elw mwyaf ar draul y rhai llai. Wrth i Brexit agosáu, agosáu hefyd y mae’r diwedd ar gyllid yr UE sydd wedi cyfrannu’n helaeth i’r sector bwyd lleol yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn wyneb gostyngiad mor fawr yng nghyllid y sector statudol, ceir cystadlu na welwyd ei debyg o’r blaen am arian o ffynonellau dyngarol. Mae llawer mwy o alwadau ar sefydliadau elusennol sy’n derbyn llai o incwm eu hunain ac sy’n gorfod gwneud dewisiadau anodd ar eu blaenoriaethau. Rhai o’r prif dueddiadau a welir yw newid o gyllid grant i gyllid drwy fenthyciadau; symud tuag at greu incwm; ac at ennill incwm yn lle gofyn am gyllid.Pa ffordd bynnag yr edrychwch arni, mae’r hinsawdd bresennol o ran cyllido yn un anodd a dweud y lleiaf!

## 2.1 Ffynonellau cyllid SFP

Nid oes gennym wybodaeth gywir ar lefel genedlaethol am ffynonellau cyllid aelodau SFP. Rydym yn tybio bod y rhan fwyaf o’r cyllid yn dod o’r sector cyhoeddus (yn cynnwys cronfeydd yr UE a’r loteri genedlaethol) neu oddi wrth ymddiriedolaethau elusennol. Yn benodol, mae nifer o bartneriaethau bwyd yn cael cymorth ar ffurf cyllid o gyllidebau iechyd cyhoeddus, fel yr eglurwyd uchod. Ceir symiau bach o gyllid drwy gyllido torfol, gan y sector preifat a thrwy greu incwm. Yn achos nifer mawr o bartneriaethau bwyd, y cyllid o’r Grant Cydgysylltwyr SFP (a’r arian cyfatebol sy’n gysylltiedig ag ef) yw’r unig arian sydd ganddynt. Gwyddom hefyd fod partneriaethau bwyd yn ei chael yn anodd iawn sicrhau cyllid craidd anghyfyngedig a’i bod yn anodd sicrhau cyllid ar gyfer y rôl ‘asgwrn cefn’ / partneriaeth strategol a gyflawnir gan nifer o bartneriaethau bwyd (gweler adran 3.1). Sefydlwyd y Grant Cydgysylltwyr SFP i ddelio â’r bwlch hwn, ond rydym yn cydnabod mai ateb tymor byr yw hwn. Gellir cael anawsterau pan fydd y cyllid grant cychwynnol yn dod i ben a bydd partneriaethau sy’n dibynnu ar gyllid grant yn ei chael yn anodd parhau hebddo. Mae partneriaethau hefyd yn ei chael yn anodd sicrhau cyllid parhaus, yn hytrach na chyllid am waith ‘newydd’ neu ‘arloesol’.

Mae’r darlun hwn yn debyg i’r hyn a ddisgrifiwyd yn [Food Issues Census] lle dangoswyd bod 41% o’r cyllid a gafodd y sector cymdeithas sifil ar gyfer bwyd a ffermio yn dod o’r sector cyhoeddus. Nododd hefyd fod 1 ym mhob 5 o’r ymatebwyr i’w arolwg wedi derbyn cyllid yr UE yn y flwyddyn flaenorol. Mae’n debygol y bydd diffyg sylweddol pan ddaw cyllid yr UE i ben.

# 3. Cynllunio strategol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol

Oherwydd y cyd-destun cenedlaethol sydd wedi'i ddisgrifio uchod, bydd angen i bartneriaethau bwyd fod yn craffach byth wrth geisio sicrhau cynaliadwyedd ariannol er mwyn cyflawni eu nodau tymor hir. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, bydd angen llawer mwy na'r gallu i ysgrifennu ceisiadau da am gyllid. Rhaid cynnwys cynaliadwyedd ariannol yng nghynlluniau strategol tymor hir eich partneriaeth fwyd. Yn yr adran hon, rydym yn bwrw golwg yn fyr ar y penderfyniadau a chamau strategol a gymerwyd gan aelodau SFP er mwyn rhoi eu partneriaethau yn y lle gorau i elwa o gynaliadwyedd ariannol. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cynllunio strategol effeithiol a chynaliadwyedd tymor hir.

## 3.1 Penderfyniadau ar strwythur sefydliadol

Hyd yn oed ar y dechrau, bydd penderfyniadau ynghylch strwythur neu ffurf arfaethedig y bartneriaeth fwyd yn cael eu gwneud yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd ar y pryd. Mae rhai partneriaethau bwyd wedi penderfynu eu sefydlu eu hunain ar ffurf sefydliad seilwaith, yn darparu rhwydweithio, cymorth a gwasanaethau i'w haelodau. I'r perwyl hwn, mae rhai ohonynt wedi mabwysiadu model y sefydliad 'asgwrn cefn' sydd wedi'i ddisgrifio yn yr enghraifft am Good Food Oxford isod. Mae eraill wedi penderfynu cynnig gwasanaethau craidd ac wedi eu rhoi eu hunain mewn lle i gyflawni contractau pwysig i awdurdodau lleol. Maent yn cyflawni nifer o swyddogaethau ac wedi'u seilio ar yr agenda statudol (e.e. Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove). Mae eraill eto sydd wedi eu sefydlu eu hunain yn bartneriaethau 'cyffyrddiad ysgafn' sy'n cynnig lle ar gyfer cydweithio a rhwydweithio rhwng rhanddeiliaid y sector bwyd gan ddarparu'r nifer lleiaf o wasanaethau neu brosiectau.

### 3.1.1 Sefydliad asgwrn cefn: Good Food Oxford

**Y dyddiau cynnar**

Pan sefydlwyd Good Food Oxford (GFO), cafodd aelod staff ar secondiad am un diwrnod yr wythnos gan y Grŵp Carbon Isel. Roedd ei gadeirydd hefyd wedi rhoi o'i amser yn wirfoddol am flwyddyn. Wedyn llwyddodd i sicrhau cyllid cychwynnol am ddwy flynedd gan unigolyn preifat a oedd yn adnabyddus i'r grŵp llywio ac yn gefnogol iawn i nod y sefydliad. Yn ystod y ddwy flynedd hyn, datblygodd ei wasanaethau. Darparodd ddigwyddiadau untro fel gweithdai a ariannwyd drwy Gyngor Dinas Rhydychen. Cafodd grant hefyd gan gyngor y ddinas i gynnal rhaglen o weithgareddau. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd grant bach iddo gan gyngor y ddinas i ddatblygu fframwaith iach a chynaliadwy ar gyfer hwyluswyr coginio.

**Gwasanaeth chwilio am hwyluswyr**

Wrth i GFO ennill ei blwyf, sylwodd fod pobl yn dod ato'n gyson i ddatrys problemau. Rhai enghreifftiau oedd ceisiadau am help i ddatblygu cwrs hyfforddi, rhedeg diwrnod cwrdd i ffwrdd a threfnu gweithdai. Roedd GFO yn gweld bod hyn yn gyfle i ddangos gwerth ei rôl o ran cryfhau cysylltiadau yn y ddinas. Sefydlodd wasanaeth Chwilio am Hwyluswyr sy'n rhoi cleientiaid sydd am gynnal gweithgareddau mewn cysylltiad â hwyluswyr. Er enghraifft, os oedd sefydliad yn cysylltu â GFO er mwyn trefnu sesiwn bwyta'n iach i bobl ifanc mewn clwb ieuenctid, byddai GFO yn ei roi mewn cysylltiad â hwylusydd addas o blith ei rwydwaith o 130 o aelodau, a byddai'r hwylusydd wedyn yn datblygu cynllun ar gyfer y sesiwn. Byddai'r gost am ddarparu'r sesiwn yn cynnwys ffi chwilio o 20% i GFO. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd wedi darparu tua 40 sesiwn fel hyn i ysgolion, busnesau, elusennau a grwpiau cymunedol.

Mae GFO yn awyddus i weld rhwydwaith cryf yn datblygu. Bydd yn ddigon bodlon gweld cysylltiadau uniongyrchol yn datblygu yn y dyfodol rhwng cleientiaid a hwyluswyr, gan y bydd hynny'n golygu na fydd angen pellach am ei wasanaeth. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth Chwilio am Hwylusydd yn talu amdano'i hun ac yn hyrwyddo enw da y rhwydwaith. Hyd yn hyn, nid yw'r gwasanaeth wedi'i hysbysebu, heblaw am y sylw iddo ar ei wefan, a gwelwyd bod hyn yn ddigon. Mae'r sgiliau a phrofiadau a gynigir gan aelodau GFO yn amrywiol iawn ar y cyfan felly ni chafwyd unrhyw anghytundeb ynghylch a yw un aelod o'r rhwydwaith yn cael ei ddefnyddio ar draul un arall.

**Diwrnodau cwrdd i ffwrdd i fusnesau**

Mae GFO wedi delio â diwrnodau cwrdd i ffwrdd i fusnesau mewn ffordd fwy ffurfiol. Bydd yn dechrau drwy gwrdd â'r busnes i gwmpasu'r gofynion. Wedyn bydd GFO yn llunio cynnig yn amlinellu rhaglen y diwrnod ac yn siarad â sefydliadau a allai ei ddarparu. Mae'r costau am y diwrnod yn cynnwys ei ffi o 20% am ei drefnu. Bydd GFO yn trefnu'r amseroedd a'r contractau tra bydd y partner darparu yn gorfod cynnal yr asesiad risg a sicrhau bod ganddo yswiriant digonol. Wedi'r digwyddiad, bydd GFO yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan y busnes ac wedyn yn trosglwyddo'r tâl i'r sefydliad darparu. Caiff GFO adborth hefyd gan y busnes am ei brofiad ar y diwrnod. Yn yr achos hwn hefyd, nid yw'r gwasanaeth wedi'i hysbysebu heblaw drwy roi sylw iddo ar ei wefan. Er hynny, mae GFO wedi'i hyrwyddo ei hun bob amser fel sefydliad deniadol i fusnesau. Mae ganddo ddelwedd lân a phroffesiynol iawn, mae'n sôn am 'fwyd da' yn hytrach na 'bwyd cynaliadwy' ac mae'n ceisio osgoi cael ei weld yn rhy 'barchus'.

**Sefydliad asgwrn cefn i gael cydeffaith**

Ers diwedd ei ail flwyddyn, mae GFO wedi'i alw ei hun yn sefydliad asgwrn cefn er mwyn cael cydeffaith. Fel sefydliad asgwrn cefn, ei nod yw hybu a hyrwyddo gwaith sefydliadau sydd eisoes yn bod yn y ddinas er mwyn gwella'r system fwyd; bod yn gyfrwng ar gyfer mentro a chydweithio o'r newydd; hyrwyddo syniadau mwy cydgysylltiedig; a datblygu ymchwil a pholisi ynghylch bwyd. Drwy ddod at ei gilydd, mae gwaith aelodau'r rhwydwaith yn fwy effeithiol a gweladwy i'r cyhoedd a llunwyr polisi. Mae holl aelodau'r rhwydwaith wedi llofnodi'r Siarter Bwyd Da ac wedi gwneud adduned. Mae GFO hyd yn oed wedi gofyn iddynt roi'r gorau i agenda eu sefydliad eu hunain a chydweithio. Y model cydeffaith hwn yw gwir gryfder GFO.

Fel sefydliad asgwrn cefn, mae'n darparu cymorth a seilwaith i'w aelodau er mwyn dilyn agenda gyffredin benodol a hwyluso gweithio cydlynol. Mae hyn yn wahanol i sefydliad seilwaith sydd yn cwrdd ag anghenion penodol ei aelodau yn unig.

Mae swyddogaethau GFO yn cynnwys:

| Swyddogaethau | Enghreifftiau |
|---|---|
| Llywio'r Weledigaeth a'r Strategaeth | Siarter Bwyd Da Rhydychen<br>Set Dysgu Gweithredol |
| Cefnogi Gweithgareddau Cydnaws | Cegin Ymchwil<br>Cynhadledd Ffermio Go Iawn Rhydychen<br>Cyfeiriadur Bwyd Lleol |
| Sefydlu Arferion Mesur Cyffredin | Cronfa Adnoddau Ar-lein<br>Map o Safleoedd Gwerthu Bwyd Iach<br>Gwobrau Bwytai Swydd Rydychen |
| Meithrin Ewyllys y Cyhoedd | Wythnos Carbon Isel Rhydychen<br>Gŵyl Pwmpenni Rhydychen |
| Hyrwyddo Polisi | Adroddiad Tlodi Bwyd |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Gweithredu Mynediad at Fwyd |
| Codi Arian | Oxfordshire LEADER<br>Rhwydwaith Dysgu Swydd Rydychen<br>Tref Newydd Iach Barton |

Mae gweithgareddau GFO wedi'u seilio ar dri maes penodol sef 'busnesau bwyd da', 'bwyd da i bawb' a 'newid ein ffyrdd'. Mae'n cefnogi gwaith ei aelodau drwy gynnal digwyddiadau; hyfforddiant ac adnoddau; hybu ymchwil, polisi a mentrau lleol newydd; a helpu i lunio ceisiadau am gyllid. Mae hefyd yn canolbwyntio ar helpu sefydliadau i gydweithio'n well. Mae'n monitro ac yn gwerthuso ei weithgarwch ar sail meini prawf sefydliadau asgwrn cefn.

**2017 ac wedyn**

Yn y ddwy flynedd cyntaf, roedd yn hawdd i GFO gyflawni swyddogaethau asgwrn cefn am fod ganddo gyllid ar gyfer datblygu craidd. Yn fwy diweddar, mae wedi gorfod bod yn fwy dyfeisgar. Bellach mae ei fodel gweithio, sy'n seiliedig ar adennill costau llawn, yn cynnwys ei waith asgwrn cefn. Felly, pan fydd yn cyflawni prosiectau, bydd yn ceisio cynnwys cost ei swyddogaethau asgwrn cefn yn y prosiectau hynny. Mae ei gyfraddau y diwrnod yn cynnwys cyllid ar gyfer rhwydweithio, gweinyddu, eiriolaeth, ymgyrchu a chyfrannu i bolisi. Er nad yw GFO yn osgoi cyfleoedd i gyflawni prosiectau, mae'n gadael i eraill wneud hynny lle bynnag y bo modd. Er hynny, os bydd yn sylwi ar fwlch sydd heb ei lenwi, bydd yn camu i'r adwy. Er enghraifft, yn ddiweddar cydweithiodd â chaffi cymunedol i ddatblygu cwpwrdd cymunedol (ar sail egwyddor debyg i'r oergell gymunedol). Sicrhaodd gyllid i gyflawni'r prosiect, ond y bwriad bellach yw camu'n ôl ac ildio'r awenau. Mae'n well ganddo lenwi bwlch lle mae'n ymddangos bod rhywbeth ar goll ac wedyn camu i'r naill ochr.

Yn ddiweddar, mae GFO wedi cofrestru'n gwmni cyfyngedig drwy warant gyda chlo asedau. Am ei fod yn cydweithio â busnesau, ni all ddweud bod ei waith yn elusennol felly, yn y dyfodol, mae'n bwriadu sefydlu sefydliad corfforedig elusennol ar wahân i ddelio â'r rhan honno o'i waith.

**Codi arian fel sefydliad asgwrn cefn**

Mae'r Grant Cydgysylltydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, ynghyd ag arian cyfatebol a ddarparwyd gan Sefydliad Cymunedol Swydd Rydychen, wedi bod yn gymorth mawr i GFO drwy ei alluogi i gyflawni gwaith asgwrn cefn yn chwe maes allweddol SFP. Ar hyn o bryd, nid yw ei wasanaethau'n ddigon effeithiol wrth greu incwm felly mae'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wedi'i seilio ar gyllid grant fel o'r blaen.

Ar hyn o bryd, nid yw'n dymuno codi tâl am ei wasanaethau ar aelodau'r rhwydwaith. Fodd bynnag, mae wedi cynnig y syniad o gael cyfraniad blynyddol ganddynt. Mae wedi awgrymu ffi o £1000 y flwyddyn i fusnesau mawr, £100 y flwyddyn i fusnesau llai a £10 y flwyddyn i elusennau. Cafwyd ymateb cymysg i'r awgrym hwn. Mae rhai busnesau wedi addo cyfrannu £100 ac mae bellach yn meithrin perthynas fwy cadarn â nifer bach o fusnesau.

Fodd bynnag, yn y sector elusennol mae nifer o sefydliadau rheng flaen sy'n amharod i roi arian i GFO. Nid ydynt yn awyddus i gydnabod eu bod yn cael unrhyw fudd ariannol gan GFO. Mae rhai elusennau yn amharod i roi £10 hyd yn oed!

Wrth chwilio am gyllid, mae GFO yn disgrifio ei holl waith yn nhermau darparu gwasanaethau. Nid yw erioed wedi gwneud cais am gyllid craidd heb fod rhyw elfen o ddarparu gwasanaethau ynglŷn ag ef. Fodd bynnag, wrth wneud cyflwyniadau ar ei waith, bydd yn sôn am ei strwythur

asgwrn cefn ac yn tynnu sylw at ei waith rhagorol ym mhob un o feysydd y Siarter Bwyd Da.

Mae hefyd wedi cofrestru ar y llwyfan Good Exchange sy'n paru cyrff cyllido â phrosiectau addas. Mae'n talu ffi fach am hyn ond mae hyn yn cyfateb fwy neu lai i'r ffi a fyddai'n cael ei thalu i sefydliad codi arian.

**Gwersi a ddysgwyd**

Mae model y sefydliad asgwrn cefn yn addas iawn i ddisgrifio gwaith GFO, gan ei fod yn dangos ei fod yn rhesymegol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth yn hytrach na bod yn niwlog ac anodd ei ddiffinio. Er ei bod yn anodd darbwyllo rhanddeiliaid o werth ariannol gwaith GFO, mae'n fan cychwyn da i feithrin dealltwriaeth o werth ei waith, y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad.

Y peth pwysicaf wrth weithredu fel sefydliad asgwrn cefn yw deall y termau a'u cymhwyso at eich holl weithgareddau, a deall pam y bydd sefydliadau asgwrn cefn yn camu i'r adwy i gyflawni gwaith a pham y byddant yn camu'n ôl i hwyluso'r rhwydwaith.

### 3.1.2 Sefydliad darparu gwasanaethau: Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove

#### Cefndir

Dros y blynyddoedd, mae Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove (PFBH) wedi tyfu i fod yn sefydliad amlswyddogaethol sy'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir dan gontract yn ei waith. Ei phrif feysydd gwaith yw: coginio; garddio cymunedol a therapiwtig; lleihau gwastraff bwyd; pwysau iach a maeth; cynorthwyo prosiectau bwyd cymunedol; a gwaith ar bolisi a strategaeth. Mae'r holl feysydd gwaith hyn yn cyfrannu at gyflawni nodau'r sefydliad, sef:

- Cysylltu: Bod yn ffocws ac adeiladu rhwydweithiau.
- Ysbrydoli: Ysbrydoli, helpu ac annog pobl i fabwysiadu deietau a ffyrdd o fyw mwy iach a chynaliadwy.
- Hyrwyddo: Hyrwyddo a chynorthwyo prosiectau bwyd dan arweiniad y gymuned.
- Dylanwadu: Dylanwadu ar ymddygiad mewn sefydliadau mawr.
- Arwain: Gweithredu ar lefel strategol.
- Gofalu: Bod yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda gyda staff a gwirfoddolwyr hapus a brwdfrydig.

Er bod y sefydliad bellach yn cyflogi 20 o staff a bod ganddo drosiant o ychydig mwy nag £1 miliwn, nid oedd ganddo fodel busnes penodol mewn golwg ar y dechrau. Mae wedi datblygu'n raddol fel hyn a dim ond yn y blynyddoedd diwethaf y mae wedi dechrau troi ei sylw at gryfhau'r model darparu amrywiol hwn.

Telir costau'r rhan fwyaf o'r staff drwy waith darparu prosiectau. Fodd bynnag, wrth i'r sefydliad dyfu, mae wedi gallu cymryd cyfrannau mwy o gyllid y prosiectau er mwyn talu am swyddogaethau craidd, rheolaeth strategol a gwaith polisi. Bellach mae gwaith y Cyfarwyddwr yn cael ei gyllido'n bennaf drwy gyfrannau o gyllid prosiectau. Felly hefyd y telir am waith rheoli'r swyddfa ac am sgiliau craidd eraill, e.e. rheoli cyllid ac adnoddau dynol. Yn gyffredinol, mae'n dyrannu cymaint o gostau â phosibl i'r prosiectau eu hunain gan ddefnyddio model adennill costau llawn. Wrth dyfu, mae wedi gallu symud staff rhwng prosiectau er mwyn iddynt ddod yn fwy effeithlon. Mae hyn yn arbennig o wir am ei dîm coginio cymunedol.

**Ffynonellau cyllid presennol**

Ei incwm yn 2017/18 oedd tua £1,029,000. O hynny, cafwyd 52% gan y Gwasanaeth Pwysau Iach a gomisiynwyd gan dîm Iechyd Cyhoeddus Cyngor Dinas Brighton; cafwyd 15% ar ffurf grantiau mawr (£100-250 mil); 12%ar ffurf grantiau canolig (£50 - £100 mil); 12% ar ffurf grantiau bach (£20-£50 mil); 9% ar ffurf grantiau (£5 - £20 mil) a thua 1% drwy rent, ffioedd etc. Mae ei Raglen Cynhaeaf yn cael ei chyllido gan y gronfa Cyrraedd Cymunedau o dan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a chaiff gyllid gan Sefydliad Esmée Fairbairn ar gyfer ei waith polisi. Nid yw'n cael cyllid craidd iechyd cyhoeddus er ei fod wedi cael cyllid gan y gronfa iechyd cyhoeddus (Hybu Iechyd cynt) yn ei ddyddiau cynnar.

**Strategaeth gyllido ar gyfer y dyfodol**

Er 2016, mae PFBH wedi ystyried ffyrdd i ddatblygu model ariannol mwy cynaliadwy. Mae'n dibynnu'n helaeth ar y Gwasanaeth Atgyfeirio Pwysau Iach ac yn cydnabod bod angen iddo sicrhau ffynonellau cyllid mwy amrywiol. Yn benodol, mae'n edrych ar ffyrdd newydd i greu incwm.

Cafwyd cyfarfod o staff ac aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Fwyd ym Mawrth 2017 i adolygu sefyllfa'r sefydliad o ran cyllido, ei waith blaenorol a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Roedd staff wedi cyfrannu at drafodaeth ar gryfderau a gwendidau'r dull cyllido ac wedi nodi beth oedd yn gweithio'n dda, beth oedd yn gweithio'n weddol dda a beth nad oedd yn gweithio cystal.

Rhai o'r pethau oedd yn gweithio'n dda iddynt oedd eu gallu i lunio ceisiadau am gyllid o ansawdd da a'u hanes o ddarparu prosiectau llwyddiannus. Roeddent yn cydnabod eu gallu i fod yn bartner arweiniol cryf a'u llwyddiant wrth ddenu grantiau llai i ategu'r cyllid ar gyfer eu rhaglenni mwy.

Ymhlith y pethau a oedd heb weithio cystal roedd: eu diffyg gwybodaeth am ymgyrchoedd i ennill rhoddwyr; y lefelau gweinyddu sydd eu hangen i ennill rhai grantiau llai; yr effaith ar staff o ddibynnu ar gyllid tymor byr; y symiau bach o incwm a enillir; ac anhawster wrth ddod o hyd i gyrff cyllido mawr gwahanol ar gyfer gweithgareddau craidd.

Roeddent hefyd wedi treulio amser yn nodi manteision ac anfanteision y gwahanol fathau o ffynonellau cyllido e.e. contractau; grantiau mawr, canolig a bach; cyllido corfforaethol; benthyciadau; rhoddion gan unigolion. Rhoddwyd sgôr i'r gwahanol fathau o gyllido ar sail graddfa, maint y cyllid, yr amser a'r ymdrech wrth ymgeisio, profiad blaenorol, tebygolrwydd o lwyddiant a pharhad. O ganlyniad i'r gweithdy hwn ar gyllido, ynghyd â chyfarfodydd ychwanegol gan reolwyr, lluniwyd Cynllun Gweithredu ar Gyllido a Chreu Incwm sy'n amlinellu'r camau y byddant yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i gynyddu eu cynaliadwyedd ariannol.

**Creu incwm a enillir: Cegin gymunedol**

Elfen allweddol yn eu cynllun i gynyddu incwm a enillir yw sefydlu cegin gymunedol mewn siop yn wynebu ffordd fawr brysur yng nghanol Brighton. Mae myfyrwyr coleg newydd ddechrau ar y gwaith o adnewyddu adeilad a oedd gynt yn gartref i undeb credyd. Y bwriad yw cynnig amrywiaeth o gyrsiau coginio er mwyn cwrdd ag anghenion o bob math, a rhai cyrsiau'n cyfrannu'n ariannol at gynnal cyrsiau eraill. Bydd y gegin ar gael i'w rhentu hefyd.

Maent yn cydnabod bod nifer o'r staff wedi dod i arfer â diwylliant o ddarparu gwasanaethau sydd ar gael am ddim ar y pwynt mynediad ac y gallai fod yn anodd i rai ohonynt droi at werthu nwyddau a gwasanaethau. Maent yn ymwybodol hefyd o'r ffordd y mae dynameg y sefydliad yn gweithio pan fydd rhai staff yn dod ag arian i mewn drwy incwm a enillir tra bydd eraill yn dibynnu'n llwyr ar gyllid grant. Roedd angen iddynt sicrhau bod yr un parch yn cael ei roi at bob agwedd o'u gwaith ond maent yn cydnabod hefyd fod gwahaniaethau o ran diwylliant gwaith.

**Cofrestru'n elusen**

Yn rhan o'i ymdrech i sicrhau mwy o sefydlogrwydd ariannol, mae PFBH wrthi'n ymgeisio i ddod yn elusen. Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn gwmni cyfyngedig drwy warant gyda chyfansoddiad nid er elw preifat. Mewn rhai ffyrdd, byddai cofrestru'n elusen yn gallu creu mwy o gyfyngiadau e.e. cyflwyno mwy o adroddiadau a rhagor o reoleiddio. Fodd bynnag, wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd sicrhau cyllid, byddai'n hoffi gallu gwneud cais i nifer o gronfeydd sydd ar gael i elusennau'n unig. Bydd hefyd yn gallu elwa o Gymorth Rhodd a bod mewn lle gwell i dderbyn rhoddion. Er mwyn denu rhoddion gan unigolion, bydd o gymorth os yw pobl yn gweld yn glir mai elusen yw'r Bartneriaeth Fwyd. Mae'n teimlo bod rhai o'i brosiectau, e.e. y Clwb Caserol a'r Gegin Gymunedol yn addas iawn i ddenu rhoddion gan unigolion neu drwy gyllido torfol.

**Rhoi gwybod am lwyddiant**

Mae PFBH wedi cydweithio â'r New Economics Foundation i ymchwilio i ffyrdd i safoni rhai o'i ganlyniadau er mwyn gallu gwerthuso ei ddull o weithredu yn y sefydliad cyfan. Byddai hyn yn ei alluogi i gael llais cryfach yn yr holl brosiectau wrth drafod effaith dull cynllunio systemau bwyd. Mae'n gwybod bod ei ddull o ddarparu gwasanaethau yn ychwanegu gwerth ond nid yw'n ddigon effeithiol ar hyn o bryd wrth roi gwybod am ei waith a'i ffordd o weithredu. Mae'n ceisio cryfhau ei brosesau gwerthuso er mwyn hwyluso cyfathrebu a negeseuon gwell am effaith ei waith.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Un o'r meysydd lle mae'r her fwyaf yn codi yw'r angen i ddal y ddysgl yn wastad rhwng bod yn ddarparwr gwasanaethau dan gontract a bod yn ffrind beirniadol. Mae PFBH yn llwyddiannus iawn wrth wneud hyn ar hyn o bryd, ond mae'n galw am sgil neilltuol.
- Mae'n fuddiol bod â'r duedd i fentro'n ofalus.
- Mae'n hollbwysig sicrhau cysylltiadau da â chyrff cyllido a phartneriaid mewn prosiectau. Bellach mae gan y Bartneriaeth Fwyd hanes o weithredu'n llwyddiannus a gall fanteisio ar hyn. Hyd yn oed os yw'r sefydliad yn un amlswyddogaethol, mae'n bwysig sicrhau nad arian fydd yr unig ystyriaeth. Mae angen bod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd ond bod hynny bob amser yn digwydd o fewn terfynau'ch cynllun gwaith a strategaeth gyffredinol.

### 3.1.3 Partneriaethau cyffyrddiad ysgafn

Am fod eu hadnoddau'n gyfyngedig, mae nifer o bartneriaethau bwyd a sefydlwyd yn y blynyddoedd diwethaf wedi dilyn llwybr 'cyffyrddiad ysgafn'. Roeddent yn awyddus i aros yn bartneriaethau bach ac ystwyth lle mae llai yn y fantol os bydd yn anodd sicrhau cyllid. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i ddod â rhanddeiliaid y system fwyd at ei gilydd a rhannu syniadau am nodau ac ethos cyffredin. Y gwahanol bartneriaid fydd yn ymgymryd â gwaith ar brosiectau yn hytrach na'r bartneriaeth ei hun. Fel arfer bydd eu gorbenion a'u costau staffio yn fach iawn.

## 3.2 Cydweddu â strategaethau lleol

Un dasg i'w chyflawni gan bartneriaethau bwyd newydd ar y dechrau yw adolygu'r polisïau a strategaethau lleol presennol a nodi elfennau sy'n gyson â gweledigaeth a nodau'r strategaeth bwyd cynaliadwy sydd ar y gweill. Gall hyn olygu edrych ar strategaethau lleol ar newid hinsawdd; y cynllun lleol; yr amgylchedd; datblygu economaidd a'r cynllun corfforaethol, er enghraifft. Mae camau gweithredu ar fwyd cynaliadwy yn debygol o gyflawni canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac iechyd sydd eisoes wedi'u nodi'n flaenoriaethau lleol. Po fwyaf y gallwch ddangos y bydd cyflawni'r cynllun gweithredu neu strategaeth bwyd yn helpu i gyflawni canlyniadau strategol eraill, gorau oll fydd eich cyfle i sicrhau cymorth statudol. Er mwyn dangos

hyn, gall fod yn fanteisiol croesgyfeirio rhwng eich canlyniadau arfaethedig a'r strategaethau eraill hyn. Yn syml, gallai hyn fod yn ffordd effeithiol i sicrhau lle canolog i'r bartneriaeth fwyd. Mae enghreifftiau o bartneriaethau bwyd sydd wedi gwneud hyn yn strategaeth bwyd Brighton a Hove (tt 12-13), strategaeth bwyd Islington (Atodiad B), a strategaeth bwyd lleol Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf (t 6).

Wrth gwrs, dim ond y cam cyntaf yw nodi synergedd â strategaethau a chanlyniadau eraill. Dros amser bydd angen i chi ddangos eich effaith ar y rhain er mwyn gallu cyflwyno achos cryf o blaid buddsoddi. I gael rhagor o wybodaeth am fesur effaith systemau bwyd cynaliadwy, gweler y ddogfen Dadlau'r Achos, a fydd yn gallu'ch helpu i gasglu tystiolaeth ansoddol a meintiol o'r effaith rydych yn ei chael.

## 3.3 Dadansoddi rhanddeiliaid a rheoli cysylltiadau

Gweithredu'n rhagweithiol i reoli'ch cysylltiadau â rhanddeiliaid yw un ffordd effeithiol arall i bartneriaethau bwyd eu rhoi eu hunain mewn lle da i dderbyn cyllid. Drwy ymgysylltu'n briodol â'r bobl briodol yn eich partneriaeth fwyd, gallwch wneud gwahaniaeth mawr yn ei llwyddiant.
Os ydych chi eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid o lawer math wrth ddatblygu'r strategaeth bwyd a'r cynllun gweithredu, yna byddwch mewn lle da yn barod i feithrin y cysylltiadau hynny. Drwy gyfathrebu'n gynnar ac yn aml â rhanddeiliaid, gallwch sicrhau eu bod yn deall yn iawn beth yw gwaith y bartneriaeth fwyd a'r manteision y mae'n eu cynnig.

Drwy ddadansoddi rhanddeiliaid, byddwch mewn lle gwell i adnabod y dylanwadwyr a'r gwrthwynebwyr allweddol ac yn gallu targedu'ch ymdrechion drwy ddylanwadu ar y bobl allweddol y mae angen ennill eu cefnogaeth. Y cam cyntaf yw canfod pwy yw'ch rhanddeiliaid (yr holl bobl sy'n cael eu heffeithio gan waith y bartneriaeth fwyd, sydd â phŵer neu ddylanwad drosti, neu sydd â buddiant mewn gweld ei gwaith yn llwyddo). Gall rhanddeiliaid fod yn sefydliadau neu'n bobl – ond yr angen sylfaenol yw cyfathrebu â phobl, felly ceisiwch ganfod yr unigolion priodol o fewn y sefydliad. Y cam nesaf fydd mapio eu pŵer, dylanwad neu fuddiant. Y ffordd hawsaf i wneud hyn yw defnyddio grid buddiant / dylanwad. Yn olaf, mae angen canfod pa randdeiliaid sydd bwysicaf i chi fel y gallwch ddeall sut i ennill eu cefnogaeth.

**Matrics buddiant / dylanwad rhanddeiliaid**

<table>
<tr><td>Mawr</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Eu buddiant ynom</td><td>Eu cadw'n fodlon</td><td>Annog a dylanwadu</td><td></td></tr>
<tr><td>Monitro</td><td>Rhoi gwybodaeth</td><td></td></tr>
<tr><td>Bach</td><td colspan="2">Eu dylanwad arnom</td><td>Mawr</td></tr>
</table>

**3.3.1 Dadansoddi rhanddeiliaid: Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove**
Fel partneriaeth, roeddem yn teimlo mai ein partneriaid a'n rhanddeiliaid yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Teimlem ein bod yn treulio llawer o amser yn rheoli nifer o wahanol fathau o bartneriaethau – partneriaid sy'n darparu gwasanaethau, atgyfeirwyr, 'hyrwyddwyr', partneriaid y strategaeth bwyd – a hefyd yn ceisio bod yn bartneriaid da ein hunain ac eistedd ar wahanol Fyrddau a phartneriaethau eraill, yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i geisiadau gan bartneriaid. Roeddem yn credu ei bod yn bwysig edrych yn fwy strategol ar y ffordd rydym yn dyrannu'r amser hwn ac ar beth y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion.

Daeth staff ac aelodau Bwrdd Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove at ei gilydd i ddadansoddi ein rhanddeiliaid.Dechreuwyd drwy restru holl sefydliadau'r rhanddeiliaid ym mhob categori e.e. cyngor, cymunedol, rhyngwladol ac nid-er-elw. Cafodd y rhain eu mapio ar y grid (fel uchod) i gymharu eu buddiant presennol yn y bartneriaeth fwyd â'r pŵer sydd ganddynt i gyflawni canlyniadau'r strategaeth bwyd. Gwnaethom y penderfyniadau canlynol ynghylch blaenoriaethau:

- **Sefydliadau sydd â nemor ddim buddiant a nemor ddim pŵer dros yr agenda**: peidio â rhoi blaenoriaeth i ymdrechion.
- **Sefydliadau sydd â buddiant mawr ond nemor ddim pŵer:** rhoi gwybodaeth, e.e. cylchlythyr
- **Sefydliadau sydd â buddiant mawr a phŵer mawr**: y rhain oedd ein rhanddeiliaid allweddol a byddwn yn rheoli'r cysylltiadau â nhw yn fanwl. Yn ddiweddarach, ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd i'r staff, roeddem wedi ystyried yn fwy manwl sut i gadw'r ymgysylltu â'r sefydliadau hyn ar y lefel hon.
- **Sefydliadau sydd â phŵer mawr ond nemor ddim buddiant**: roeddem wedi penderfynu rhoi'r sylw mwyaf i'r rhain. O blith y sefydliadau yn y categori hwn, roeddem wedi pennu dau grŵp o randdeiliaid y byddem yn rhoi blaenoriaeth iddynt – rhanddeiliaid iechyd a sefydliadau arlwyo mawr, a thimau caffael. Roedd tri grŵp ychwanegol hefyd y gellid eu targedu yn y dyfodol – sefydliadau sydd â thir amaethyddol; cynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr bwyd lleol; a datblygu economaidd lleol.

**Gwersi a ddysgwyd**
- Teimlwyd bod rhai prosiectau cymunedol a oedd â nemor ddim pŵer ar eu pen eu hunain ond a oedd yn fwy pwerus fel grŵp, fel eu bod yn cael eu dangos mewn mwy nag un sector yn y grid.
- Roedd yr ymarfer blaenoriaethu'n ddefnyddiol gan ein bod yn teimlo'n aml fod ein gwaith yn rhy wasgarog.
- Mae angen bod yn hyblyg a pharod i ymateb bob amser pan fydd y posibilrwydd yn codi o gael partneriaid a chysylltiadau newydd.
- Roedd yr ymarfer yn dangos pa mor bwysig oedd dewis ein partneriaid yn ofalus a bod angen sicrhau bod pawb sy'n cydweithio â ni yn teimlo eu bod yn bartner er mwyn magu ymdeimlad o fod yn gymuned.

## 3.4 Rheoli costau

Mae rheolaeth ariannol dda yn elfen hanfodol ym mhob dull strategol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Bydd llawer o bartneriaethau bwyd yn chwilio am bobl sydd â phrofiad o faterion ariannol i ddod yn aelod o'u corff llywodraethu; mae hyn yn arbennig o wir am bartneriaethau bwyd annibynnol sy'n gorfod cyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau, er enghraifft. Mewn nifer o bartneriaethau bwyd, bydd y swyddogaeth rheoli ariannol yn cael ei chyflawni gan y sefydliad lletyol e.e. awdurdod

lleol neu sefydliad trydydd sector. Bydd eraill yn dibynnu ar brofiad eu staff neu wirfoddolwyr, sydd weithiau'n gyfyngedig.

Mae llawer o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol yn cyflogi cyfrifydd cymunedol sy'n gallu cynnig cymorth ymarferol wrth sefydlu systemau ariannol. Os nad yw cymorth o'r fath ar gael, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael cymorth ar-lein.

Mae gwefan Knowhownonprofit yn cynnwys adran ar reolaeth ariannol a chanllawiau ar hanfodion strategaethau cyllid, cyllidebau a mesur perfformiad ariannol. Mae gwasanaethau cyfrifyddiaeth gymunedol ar gael ym mhob rhan o'r DU a'u nod yw helpu sefydliadau nid-er-elw, mentrau cymdeithasol ac elusennau i reoli eu materion ariannol. Mae gwybodaeth ar gael am y Rhwydwaith Cyfrifyddu Cymunedol a sut mae'n gallu helpu. Hefyd mae'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yn rhedeg gwefan ar wirfoddoli i gyfrifwyr.Gallwch hysbysebu swyddi gwag, e.e. ar gyfer trysoryddion, yn rhad ac am ddim.

Un agwedd bwysig yw'r gallu i gyfrifo cost lawn eich gwasanaeth, yn cynnwys gorbenion. Felly bydd costau prosiectau yn cynnwys cyfraniad at gostau goleuo, gwresogi, rheoli, yswiriant, etc. Y model hwn ar gyfer adennill costau llawn yw'r un a ddylai fod yn sail i unrhyw fentrau neu geisiadau am grant a gaiff eu cyflwyno. Mae disgrifiad manwl o'r model hwn mewn dogfennau eraill fel y canllaw hwn ar adennill costau llawn felly ni fydd yn cael ei drafod yma.

## 4. Datblygu cynllun cyllido cynaliadwy

Yr un mor bwysig â'r cynllun cyllido ei hun yw'r drafodaeth am gyllid sy'n digwydd ar lefel strategol ar draws y bartneriaeth fwyd. Un ffordd dda i gynnwys rhanddeiliaid o bob bath wrth drafod y mater hwn yw cynnal gweithdy ar gyllido cynaliadwy. Yn y gweithdy, gellid ystyried y ffordd y mae'r bartneriaeth wedi'i chyllido hyd yn hyn; cydnabod y profiadau cadarnhaol a negyddol yn y drefn ariannu honno; ystyried gwaith a fydd yn digwydd dros y ddwy flynedd nesaf ac wedyn; edrych ar gyfleoedd, opsiynau a risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ffynonellau cyllido; ymchwilio i opsiynau a datblygu strategaeth gyllido. Yn yr adran hon, disgrifir dull fesul cam i greu cynllun cyllido cynaliadwy. Mae'r broses hon yn cynnwys gwerthuso profiad blaenorol yn ogystal â blaengynllunio, felly bydd yn fwy addas i bartneriaethau bwyd sy'n gweithredu ers cryn amser yn hytrach na'r rheini sydd newydd ddechrau. Mae'r camau wedi'u seilio ar broses a ddatblygwyd gan Food Matters ar gyfer Partneriaeth Fwyd Brighton a Hove.

### 4.1 Cam 1: Ymchwilio

Dechreuwch drwy gasglu gwybodaeth gefndir a fydd yn eich helpu i ddisgrifio'r cyd-destun lleol ar gyfer cyllido lle rydych yn gweithredu. Gall hyn gynnwys ymchwil ddesg a gwybodaeth a gesglir drwy rwydweithio lleol.

Gofynnwch i chi'ch hunain:

- Oes gennym ddealltwriaeth clir o'n nodau ac amcanion fel partneriaeth?
- Oes gennym syniad da o sefyllfa bresennol ein partneriaeth mewn perthynas â chyflawni ein nodau ac amcanion? (Gall dadansoddiad SWOT fod o gymorth i ateb y cwestiwn hwn.)
- Oes gennym ddealltwriaeth clir o'n costau ac asedau?
- O ble rydym yn cael ein harian nawr ac o ble yn y gorffennol? Pa mor debygol yw hi y bydd hyn yn parhau?
- Oes gennym ddarlun clir o'n gwahanol ffynonellau cyllido? A ydym yn cael yr arian i gyd gan un cyllidwr?
- A ydym yn gwybod ar gyfer pa weithgareddau rydym am gael cyllid nawr a dros y2-3 blynedd nesaf?
- Oes gennym wybodaeth dda am y gwahanol gyrff cyllido posibl a'u blaenoriaethau?
- A ydym yn rhwydweithio'n dda â chyrff cyllido lleol ac yn gwybod am gyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol?

### 4.2 Cam 2: Trafod

Wrth drafod cyllid, bydd yn fuddiol cynnwys aelodau o'r grŵp llywio neu'r bwrdd yn ogystal â chydgysylltwyr y bartneriaeth fwyd a staff darparu eraill. Gallech neilltuo amser mewn cyfarfod o'r grŵp llywio neu ddod at eich gilydd a chanolbwyntio ar y mater hwn am rai oriau mewn 'gweithdy cyllido'.

**Ffynonellau cyllido posibl**

Ffordd fuddiol i gychwyn yw trafod yr holl fathau o gyllid sydd ar gael i'ch partneriaeth fwyd er mwyn cael dealltwriaeth da o'r posibiliadau. Byddai'r rhestr yn gallu cynnwys:

- Y sector cyhoeddus (grantiau a gwasanaethau a gomisiynir, awdurdodau lleol, y GIG, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol).
- Ffynonellau preifat (contractau neu roddion gan fusnesau, gwerthiant i fusnesau, e.e. ymgynghoriaeth,nawdd masnachol).
- Y trydydd sector (ymddiriedolaethau a sefydliadol elusennol).
- Unigolion (symiau bach a mawr, rhai untro a rhai rheolaidd, ffioedd aelodaeth, cyllido torfol, gwerthiant i'r cyhoedd, e.e. bwyd, cyhoeddiadau).
- Ffynonellau lleol (y gwahanol sefydliadau lleol sy'n codi arian e.e. eglwysi, ysgolion, grwpiau).

Efallai fod rhai ffynonellau cyllido na fyddant byth yn addas ar gyfer eich partneriaeth fwyd. Y peth pwysig yw eich bod yn edrych ar yr holl bosibiliadau ac yn penderfynu beth sy'n addas i chi, i'ch buddiolwyr ac i'ch amcanion tymor hir.

Ar gyfer pob math o gyllido, gofynnwch i chi'ch hunain:

- Beth yw maint y cyllid sydd ar gael?
- Faint o amser a gymerir i'w gael?
- Pa brofiad blaenorol sydd gennych o'r math hwn o gyllid?
- Pa mor debygol yw hi y byddwch yn llwyddo?
- Pa mor hir mae'r cyllid hwn yn para?

Drwy roi sgôr am bob math o gyllid ar sail y meini prawf hyn, byddwch yn cael rhestr fer mewn byr o dro o tua 5 neu 6 o opsiynau cyllido i chi ganolbwyntio arnynt.

**Paru cyllid â meysydd gwaith**

Unwaith y byddwch wedi cael darlun clir o'r opsiynau cyllido sydd ar gael, gallwch ddechrau paru'ch gwaith presennol a gwaith yn y dyfodol (dros y ddwy flynedd nesaf ac wedyn) ag opsiynau cyllid posibl. Syniad da yw dechrau â'r meysydd gwaith sydd â'r flaenoriaeth fwyaf a gweithio yn ôl.

Ar gyfer pob un o'r meysydd gwaith, gofynnwch i chi'ch hunain:

- Beth fydd angen iddo ddigwydd er mwyn llwyddo gyda'r dull cyllido hwn?
- Pwy fydd angen arwain i wneud i hyn ddigwydd?
- Pwy sydd â'r gallu a'r sgiliau i wneud iddo weithio?

**Gwerthoedd ac egwyddorion cyrff cyllido**

Mae nifer o wahanol ffynonellau cyllido ar gael, yn cynnwys cyrff cyllido, rhoddwyr a darparwyr grantiau. Efallai y bydd amodau ynglŷn â rhai mathau o gyllid neu bethau ychwanegol eraill! Bydd yn werth i chi ystyried ble fydd y bartneriaeth fwyd yn tynnu'r llinell ar sail pwy ydych chi, beth rydych yn sefyll drosto, pwy rydych yn eu cynrychioli a'r math o sefydliad rydych chi am fod.

Gofynnwch i chi'ch hunain:

- Pa werthoedd / egwyddorion sydd gennym o ran cyllido?
- Gan bwy na fyddwn yn derbyn cyllid?
- Pa egwyddorion sydd bwysicaf i ni?

**Meithrin gallu**

Unwaith y bydd gennych syniad am y math o gyllid rydych am roi blaenoriaeth iddo, bydd angen ystyried a yw'r sgiliau a gallu angenrheidiol gan eich partneriaeth fwyd i fanteisio ar y cyfleoedd.

Gofynnwch i chi'ch hunain:

- Pa sgiliau sydd eu hangen arnom fel sefydliad?
- A ydym yn gallu manteisio i'r eithaf ar y gwahanol gyfleoedd cyllido ar hyn o bryd?
- A yw'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol gennym?
- Pa opsiynau sydd ar gael i gynyddu ein gallu?
- Allwn ni feithrin gallu a chynyddu cyfrifoldeb y staff / corff llywodraethu presennol?
- Beth sydd angen ei wneud i gydweithio'n fwy ar y mater hwn?

**Amlinelliad o weithdy**

Byddai'r agenda ar gyfer gweithdy cyllido a luniwyd gan Food Matters yn gallu'ch helpu i gynllunio'ch gweithdy chi. Dim ond enghraifft yw hon, felly bydd angen addasu'ch agenda at eich anghenion penodol. Gallwch gael mwy o help i wneud hyn gan dîm cymorth SFP.

## 4.3 Cam 3: Cynllunio

Bydd y cynllun cyllido ei hun yn cael ei seilio ar y drafodaeth a gawsoch. Gallech benderfynu bod angen ymgynghori ymhellach ag aelodau'r bartneriaeth fwyd ar eich cynllun drafft cychwynnol. Mae amrywiaeth o fformatiau y gallech eu defnyddio neu gallech ddyfeisio'ch fformat eich hun. Er enghraifft, gallech ystyried cynnwys adrannau ar y canlynol:

- Cyflwyniad, nodau ac amcanion y bartneriaeth fwyd
- Y ffynonellau cyllido presennol
- Beth sydd wedi gweithio'n dda / heb weithio cystal yn y gorffennol
- Manteision ac anfanteision y gwahanol fathau o gyllido
- Blaenoriaethau ar gyfer symud ymlaen, yn cynnwys prosiectau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyllido
- Y camau nesaf ac amserlen – gallai hyn fod ar ffurf cynllun gweithredu ar gyllido a byddai'n cynnwys ceisiadau am grantiau sydd yn yr arfaeth, cyfleoedd i dendro, meithrin cysylltiadau, treialu dulliau newydd e.e. incwm a enillir, treialu cyllido torfol, cysylltu â busnesau, etc.

Wrth ddechrau gweithredu'r cynllun, byddai'n fuddiol trefnu i'w adolygu'n rheolaidd, fel bod modd ei ddiweddaru a'i addasu os bydd angen.

Gofynnwch i chi'ch hunain:

- A yw'r cynllun yn rhy uchelgeisiol?
- A oes angen ei adolygu?
- A oes angen mwy o help neu hyfforddiant arnom?
- A yw'r prosiectau'n ariannol hyfyw?

# 5. Arallgyfeirio cyllido: profiad o'r Rhwydwaith SFP

Yn yr adran hon, tynnir ar brofiad aelodau SFP gan ddisgrifio eu profiad o wahanol ffynonellau cyllid; manteision ac anfanteision; goblygiadau o ran amser; uchafbwyntiau ac isafbwyntiau; cynghorion i aelodau eraill SFP a'r gwersi a ddysgwyd ar hyd y daith.

## 5.1 Cyllido gan y sector preifat

### 5.1.1 Dinas Bwyd Cynaliadwy Bournemouth a Poole

**Y dyddiau cynnar 2014 - 2016**

Pan sefydlwyd SFP Bournemouth a Poole (SFPBP) fel partneriaeth fwyd, roedd yn canolbwyntio ar y sector lletygarwch yn Bournemouth a Poole a'i berthynas â'r sylfaen cynhyrchwyr lleol yn Dorset a'r New Forest. Daethant i adnabod nifer mawr o fusnesau lletygarwch a oedd yn awyddus i ffurfio rhwydwaith seiliedig ar fwyd lleol. Roedd un o'r gwestai y cydweithiodd ag ef wedi ennill nifer o wobrau am gynaliadwyedd ac roedd yn cyd-fynd yn agos iawn â nodau SFPBP. Ar y pryd, roedd SFPBP yn gwneud cais am gyllid o dan Gam 1 o'r rhaglen Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (a oedd yn cael ei chyllido gan Sefydliad Esmée Fairbairn) ac roedd angen iddi ddod o hyd i arian cyfatebol. Aeth ati i baratoi amlinelliad o'r hyn roedd am ei wneud dros y 3 blynedd dilynol a gofynnodd i'r gwesty a fyddai'n fodlon cynnig £1,000 y flwyddyn dros gyfnod y rhaglen. Yn gyfnewid am hynny, byddai SFPBP yn cynnwys logo'r gwesty yn ei llenyddiaeth ac yn hyrwyddo ei fusnes yn rhan o'r bartneriaeth fwyd. Ar ôl ystyried y cais, cytunodd i wneud hynny.

Roedd y gwesty hwn yn rhan o fenter cynaliadwyedd ehangach yn Bournemouth o'r enw 'Green Goals' a oedd yn cynnwys nifer o fusnesau lletygarwch. Awgrymodd y gwestywr y dylai SFPBP siarad â'r busnesau hynny hefyd. Felly cysylltodd ag wyth busnes arall, fesul un a thrwy gyflwyniad i grŵp. Unwaith eto, gofynnodd am £1,000 y flwyddyn am dair blynedd (2014 -2016). Roedd yn help mawr iddi allu dweud bod un busnes eisoes wedi cytuno i wneud hyn. O'r wyth busnes hynny, cytunodd pump i'w chyllido ac roedd tri wedi gwrthod. O'r pump a gytunodd i'w chyllido, roedd tri wedi rhoi £1,000 y flwyddyn fel y gofynnwyd a'r ddau arall wedi rhoi £3,000 y flwyddyn. Roedd un o'r rhain yn ganolfan siopa leol fawr a oedd yn agos i ardaloedd difreintiedig lle'r oedd SFPBP yn gweithio ar brosiectau gerddi cymunedol. Fel busnes lleol dylanwadol, roedd ei gynnig i SFPBP yn rhan o'i bolisi ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Nid oedd amodau ar y cyllid a roddwyd gan y busnesau hyn, felly roedd SFPBP yn gallu ei wario fel y dymunai.

**Cynllun achredu busnesau**

Un elfen ganolog yn rhaglen tair blynedd SFPBP oedd datblygu cynllun achredu busnesau, i wobrwyo busnesau sy'n rhagori ym maes bwyd. Bydd yn anfon 'canllawiau i bartneriaid' i'r busnesau i ddangos sut y gallant ennill gwobr am ragoriaeth ym maes bwyd cynaliadwy. Mae hon yn ffordd i gydnabod eu cyflawniadau yn ogystal â chynnig cyfleoedd i'w hyrwyddo drwy'r bartneriaeth fwyd. Mae hyn yn llwyddo i ddod ag SFPBP i sylw busnesau ac yn ffordd i greu rhwydwaith o fusnesau y gall gysylltu ag ef ac sy'n gyfarwydd â'i gwaith. Mae'n ffordd i dynnu pob dim at ei gilydd ac mae wedi helpu i'w rhoi mewn lle da i gydweithio â busnesau.

**Dull newydd o weithredu yn 2017**

Mae pawb ond un o'r rhoddwyr gwreiddiol yn parhau i gymryd rhan yn y bartneriaeth fwyd un ai drwy roi arian neu drwy roi nwyddau a gwasanaethau, e.e. drwy ddarparu compost ac uwchbridd

i'r holl brosiectau tyfu bwyd cymunedol. Fodd bynnag, wrth i raglen weithgareddau SFPBP ddatblygu ymhellach, mae wedi gweld bod ei phartneriaid busnes yn awyddus i gael eu cysylltu ag agwedd benodol o'i gwaith sy'n cydweddu'n agos â'u polisi ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, yn hytrach na darparu cyllid ar gyfer y rhaglen weithgareddau gyfan. O ganlyniad i hyn, mae SFPBP yn rhoi mwy o sylw bellach i'r hyn y gall ei gynnig iddyn nhw a sut y gallant feithrin perthynas sy'n dod â budd i'r ddwy ochr. Bydd SFPBP yn edrych ar eu polisïau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a'u polisïau 'Iechyd a Lles' ar gyfer eu staff ac yn dyfeisio ffyrdd i'w helpu i gyflawni'r rhain. Er enghraifft, mae safle garddwriaeth gan SFPBP lle mae'n gallu cynnal digwyddiadau ar gyfer staff ac mae'n cynnig marchnad ffermwyr ar-lein er mwyn darparu cynnyrch lleol ffres i'r staff.

Mae meithrin cysylltiadau â busnesau yn cymryd amser, felly y nod sydd gan SFPBP bellach yw sicrhau mwy o gyllid gan nifer llai o gwmnïau. Wrth ddechrau gweithredu fel hyn, mae'n bwriadu targedu un busnes mawr. Mae hefyd wedi ffurfio partneriaeth â chwmni sy'n newid cyflenwadau pŵer i ddefnyddio ynni adnewyddadwy ac mae'n cael rhan o'r comisiwn am unrhyw gwsmeriaid y mae'n eu cyflwyno. Ar hyn o bryd, mae tua 15% o gyllideb gyfan SFPBP yn dod oddi wrth fusnesau.

**Gwneud cais am statws elusen**

Ar hyn o bryd, mae SFPBP yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac mae'n gwneud cais am statws elusen. Y prif gymhelliad yw'r ffaith bod nifer o'r busnesau y mae'n cydweithio â nhw yn rhoi blaenoriaeth yn eu gwaith cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i elusennau cydnabyddedig.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Mae'n bwysig gwybod sut rydych yn cydweddu â gwerthoedd brand y busnes. Roedd SFPBP wedi treulio amser yn gweithio ar ei gwerthoedd craidd, ei datganiad cenhadaeth a'i blaenoriaethau strategol. Nawr mae'n hawdd i fusnesau wybod pwy yw SFPBP a beth yw ei hamcanion. Mae ei blaenoriaethau strategol yn rhedeg dros gyfnod o saith mlynedd felly mae hyn yn rhoi sicrwydd i fusnesau o ran y cyfeiriad y mae'n mynd iddo.
- Byddwch yn glir iawn ynghylch beth rydych yn ei gynnig a beth rydych am ei gyflawni.
- Peidiwch â bod yn swil wrth ofyn am arian / adnoddau. Byddwch yn falch o'ch gwaith; does dim angen ymddiheuro.
- Mae codi arian oddi wrth fusnesau yn cymryd amser a byddwch yn cael ambell siom – y peth pwysig yw ymchwilio i fusnesau a chysylltu â'r rhai priodol.
- Ar ôl cael cymorth gan un busnes, roedd yn haws denu busnesau eraill.
- Roedd bwrdd SFPBP wedi trafod yr anghytuno a allai godi os oedd arian yn cael ei gynnig iddynt gan fusnes nad yw'n cydweddu'n dda â'u cenhadaeth. Am y tro, maent wedi penderfynu trafod pob achos ar wahân.

## 5.2 Cyllido torfol

Cyllido torfol yw'r arfer o gyllido prosiect drwy godi nifer mawr o symiau bach o arian oddi wrth nifer mawr o bobl, drwy'r rhyngrwyd fel arfer. Bydd pobl sy'n hoffi'r syniad un ai'n rhoi arian neu'n addunedu i roi arian yn gyfnewid am wobr y byddant yn ei chael wedi i'r prosiect lwyddo. Mae nifer mawr o ganllawiau ar y rhyngrwyd ynghylch sut i redeg ymgyrch cyllido torfol lwyddiannus. Gweler y dogfennau canllaw ar wefan crowdfunder.co.uk ar gynllunio'r ymgyrch; creu tudalen prosiect ar-lein (yn cynnwys cyngor ar ddyfeisio gwobrau) a rhedeg y prosiect.

### 5.2.1 London Food Link: Jellied Eel

Penderfynodd London Food Link (LFL) godi arian drwy gyllido torfol er mwyn troi ei gylchgrawn JelliedEel yn wefan cylchgrawn ar-lein. Un o'r rhesymau dros benderfynu ar gyllido torfol oedd

eu bod yn credu y byddai'n anodd sicrhau cyllid grant ar gyfer menter o'r math hwn. Rheswm arall oedd eu bod yn gwybod bod ganddynt rwydwaith cryf o bobl a fyddai'n gallu cynnig gwobrau. Roedd LFL wedi rhoi cryn dipyn o amser at sicrhau amrywiaeth o wobrau ac wedi gosod targed codi arian ar sail gwerth y gwobrau hyn. Ymysg y gwobrau roedd llyfrau coginio; bagiau anrhegion o gwrw; pryd o fwyd i ddau; hyfforddiant; a gwahoddiad i barti i nodi diwedd yr ymgyrch. Yn ogystal â sicrhau gwobrau, roeddent hefyd wedi casglu cynigion o gymwynasau; er enghraifft, roedd fideo ar-lein yr ymgyrch wedi'i gynhyrchu iddynt am ddim gan wirfoddolwr. Yn ogystal â'r ymgyrch cyllido torfol ar-lein, trefnwyd cinio codi arian i 30-40 o bobl a chodi £30 am bob tocyn. Codwyd cyfanswm o tua £5,000 ar-lein a £3,000 drwy'r cinio a'r parti.

**Y gwersi mwyaf**

*Neilltuo amser*

Roedd angen neilltuo cryn dipyn o amser gan dri aelod staff a gwirfoddolwyr. Roedd yr ymgyrch wedi para chwe wythnos ac wedi cymryd y rhan fwyaf o'u hamser, er eu bod yn dal i wneud eu swyddi pob dydd. Os byddent yn rhedeg ymgyrch o'r fath eto, byddent yn gwneud hynny am bedair wythnos er mwyn iddi beidio â 'llyncu' cymaint o'u hamser!

*Cyfle i dreialu dull newydd*

Roedd yr ymgyrch cyllido torfol yn ffordd ddiogel i dreialu dull newydd o gynyddu incwm. Hwn oedd y tro cyntaf iddynt ofyn am arian gan unigolion a byddant yn gallu dysgu gwersi o'r profiad.

*Meithrin cysylltiadau â'u cefnogwyr*

Roedd yr ymgyrch cyllido torfol hefyd wedi'u helpu i ddysgu rhagor am eu rhwydwaith o gefnogwyr. Gwelodd LFL fod rhai pobl a oedd heb ddiddordeb mawr yn y gwobrau, ond a oedd yn dymuno helpu drwy wneud rhodd. Byddant yn gallu meithrin y cysylltiadau hyn. Roedd y cinio codi arian a'r parti ar ddiwedd yr ymgyrch yn gyfleoedd da i ddod i adnabod pobl a fyddai wedi gallu bod yn gefnogwyr ers tro, ond eu bod heb gwrdd â nhw o'r blaen. Mewn rhai ffyrdd, mae cyllido torfol yn bwysicach o ran datblygu sylfaen o gefnogwyr nag o ran codi arian.

*Mae'n bwysig cael strategaeth cyfryngau cymdeithasol*

Mae 4,500 o bobl ar restr e-bost LFL ac roedd hyn yn hanfodol i'w llwyddiant. Ond roedd y profiad wedi'u cymell hefyd i ddatblygu eu strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr ymgyrch ac wedyn.Mae angen cael lluniau da, asedau, a nifer mawr o bobl i ddarllen negeseuon twitter, eu rhannu a'u haildrydaru. Gwelwyd bod modd cynyddu eu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn sylweddol drwy wneud hyn yn dda. O ganlyniad i hyn, roeddent hefyd wedi meddwl yn ofalus am ffyrdd i ddweud stori'r bobl y maent yn eu helpu ac egluro sut maent yn creu buddion i bobl.

*Byddai'n haws codi arian drwy gyllido torfol at brosiect mwy diriaethol.*

Roedd yn eithaf anodd codi arian i roi cylchgrawn ar-lein. Er hynny, roeddent wedi llwyddo ac mae hynny wedi rhoi mwy o hyder iddynt wrth ystyried y posibilrwydd o godi arian at brosiect mwy diriaethol yn y dyfodol.

### 5.2.2 Rhwydwaith Bwyd Bryste: Get Growing Garden Trail

Codwyd £3,000 gan Rwydwaith Bwyd Bryste drwy gyllido torfol at brosiect 'Get Growing Garden Trail'. Roedd yr arian wedi'i godi yn rhan o ymgyrch cyllido torfol 'Better Bristol' a oedd wedi'i threfnu a'i chydgysylltu ledled y ddinas gan Bartneriaeth Cyfalaf Gwyrdd Bryste. Defnyddiodd y llwyfan crowdfunder.co.uk a chynigiodd arian cyfatebol hyd at gyfanswm o £40,000 i'r prosiectau cyntaf yn y ddinas i gyrraedd hanner ffordd at eu targed cyllido torfol. Roedd prosiectau wedi elwa hefyd o

fod yn rhan o ymgyrch proffil uchel a oedd wedi'i hysbysebu'n dda. Cafodd Rhwydwaith Bwyd Bryste roddion gan tua 100 o bobl i gyrraedd ei darged.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Byddwch yn elwa o weithredu fel tîm yn hytrach na'i wneud ar eich pen eich hun.
- Mae crowdfunder.co.uk yn darparu adnoddau defnyddiol ac yn cynnig cymorth drwy gydol yr ymgyrch.
- Bydd yn fantais i chi gael proffil a chysylltiadau da ar Facebook.
- Annog pobl i gynnig rhoddion ar ddechrau'r ymgyrch gan fod hynny'n magu hyder mewn pobl eraill sy'n ystyried rhoi.
- Gall fod yn anodd mentro y tro cyntaf! Rydych chi'n cynnig eich syniadau heb wybod beth fydd yr ymateb.
- Wrth fod yn rhan o rwydwaith bwyd, rydych mewn lle da i sicrhau gwobrau e.e. ymweliadau arbennig â phrosiectau tyfu bwyd / perllannoedd. Nid yw'r rhain yn costio dim i'r cyfranwyr, heblaw am eu hamser.
- Roeddem wedi llwyddo i sicrhau nifer o wobrau sylweddol e.e. cyfleoedd i ofalu am anifeiliaid yn Sw Bryste. Er mwyn cael y fantais fwyaf o hyn, roeddem wedi trefnu bod pawb sy'n rhoi £10 yn cael lle mewn raffl am y wobr.
- Os byddwch yn trefnu ymgyrch cyllido torfol lle na fyddwch yn hawlio'r rhoddion os na fyddwch yn cyrraedd y targed ariannol, fel roedden ni wedi gwneud yn yr achos hwn, wrth nesáu at y dyddiad cau gallech ystyried faint o arian y byddai'ch sefydliad yn gallu ei gyfrannu ei hun. Byddai'n ddiflas iawn bod yn agos at gyrraedd y targed ac wedyn colli popeth.

## 5.3 Incwm a enillir

Wrth iddi ddod yn fwy anodd sicrhau cyllid grant, mae nifer o aelodau SFP yn dechrau ystyried ffyrdd i gael mwy o gyllid drwy incwm a enillir. Ar hyn o bryd, mae incwm a enillir yn rhan fach iawn o hyd o gyllid partneriaethau bwyd ac mae'r profiad sydd gan aelodau SFP braidd yn gyfyngedig yn y maes hwn.

**Ymgynghoriaeth**

Mae nifer o bartneriaethau bwyd yn ennill symiau bach o arian drwy waith ymgynghoriaeth. Ar y cyfan, mae'r gwaith hwn yn digwydd yn achlysurol, ac yn cael ei gyflawni gan y Cydgysylltydd ar sail ei set sgiliau benodol a'i enw da a'i gysylltiadau. Mae'r astudiaeth achos isod ar Foodsync yn dangos yr amrywiaeth fawr o wasanaethau ategol am dâl sy'n gysylltiedig ag agenda SFP. Er nad yw'r sefydliad ei hun yn aelod o SFP, mae'r astudiaeth wedi'i chynnwys yma am ei bod yn cynnig rhai syniadau diddorol i'r rheini sy'n ystyried cynyddu eu cyllid drwy incwm a enillir.

### 5.3.1 Stockport: Foodsync

Pan ddaeth y cyllid craidd i ben ar gyfer y bartneriaeth fwyd yn Stockport, roeddent wedi ystyried ennill rhywfaint o incwm drwy fasnachu er mwyn ceisio sicrhau model busnes mwy cynaliadwy. Er mai cyflawni'r agenda ar fwyd cynaliadwy oedd eu busnes craidd, roeddent hefyd yn gweld eu bod yn darparu nifer o wahanol wasanaethau ar ben hynny y gellid codi tâl amdanynt. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys: cynllunio busnes, astudiaethau dichonoldeb a strategaethau bwyd a diod i wahanol sefydliadau Er bod prosiectau a phartneriaid y system fwyd yn cwrdd yn gyson, roedd bwlch o ran darparu'r wybodaeth a chymorth technegol sydd eu hangen i gychwyn pethau. Roedd sefydliad newydd a allai lenwi'r bwlch hwn: [Foodsync.]

Mae Foodsync yn ei alw ei hun yn 'arbenigwr ar strategaethau bwyd, yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, ffyniant masnachol a gwerth cymdeithasol'. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ac yn cyflawni prosiectau ar ran y sector corfforaethol, busnesau bach a chanolig eu maint, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, a'r sector cymunedol a gwirfoddol. Rhai mathau o waith sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn yw: cynlluniau gweithredol; ailfrandio; datblygu bwydlenni; dewis staff ar gyfer caffis cymunedol; cynllunio busnes e.e. ar gyfer neuadd farchnad wag; astudiaethau dichonoldeb ar brosiectau posibl ar gyfer tyfu bwyd; adolygu'r ddarpariaeth bwyd mewn cartrefi gofal; trefnu sioe fasnach a rhaglen mentrau bwyd i Gyngor Stockport; datblygu strategaethau bwyd i weithredwyr gwasanaethau bwyd, darparwyr lletygarwch a hamdden, a mentrau cymdeithasol fel gwasanaethau pryd ar glud a chlybiau cinio. Mae Foodsync yn cynnig cymorth technegol manwl a rheolaeth strategol. Ei brif gleientiaid yw sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau mawr yn y trydydd sector. Bydd y cleientiaid hyn yn talu Foodsync i gydweithio â sectorau y byddent yn llai hyderus wrth ymwneud â nhw. Trosiant presennol Foodsync yw tua £100,000 a dim ond 5% o hynny sy'n dod drwy grantiau.

Bydd Foodsync yn rhoi tua 30% o'i amser yn ddi-dâl i weithio mewn partneriaethau, i gynorthwyo sefydliadau y tu allan i'r ardal ac i helpu busnesau sydd y tu allan i'w maes arferol.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Byddwch yn glir ynghylch pa weithgareddau fydd yn cynhyrchu refeniw i chi. O ble y daw'ch incwm?
- Gall fod yn eithaf anodd delio â'r trothwy TAW. Mae'n bosibl y bydd rhai cleientiaid yn cael trafferth â'r ffaith eich bod wedi cofrestru ar gyfer TAW, oherwydd y ffordd y maent yn dyrannu eu cyllidebau.
- Gellir wynebu heriau wrth sefydlu busnes bwyd o fewn partneriaeth fwyd am ei bod yn debygol y bydd pobl eraill yn y bartneriaeth sydd eisoes yn rhedeg busnesau mewn meysydd tebyg. Bydd hyn yn achosi gwrthdaro yn fuan iawn wrth i fusnesau gystadlu am yr un cyllid.
- Mae'n bosibl na fydd comisiynwyr yn ymddiddori yn y ffaith eich bod yn fenter gymdeithasol. Nid yw'r sector mentrau cyhoeddus yn enwog am fod yn gwbl broffesiynol a gall hyn eich dal yn ôl.
- Os byddwch yn darparu cyngor i fusnesau sy'n gwneud iddynt redeg yn well, yna rhaid i rywun yn rhywle dalu am hynny. Os oes arian yn mynd o gwmpas nad oedd yno o'r blaen, dylech allu cael cyfran ohono.

## 5.3.2 Model menter gymdeithasol: Good Food in Greenwich

Sefydlwyd Asiantaeth Datblygu Cydweithredol Greenwich (ADCG) 35 mlynedd yn ôl. Mae'n Gymdeithas Budd Cymunedol ac felly mae ganddi statws elusen gyda Chyllid a Thollau EM; gall ddyroddi cyfranddaliadau; derbyn rhoddion; ac mae'n elwa o lefelau is o lawer o gyfraddau treth (dim treth ar elw) ac ardrethi busnes (gostyngiad o tua 80%). Mae gan y sefydliad 32 o staff a 10 tiwtor llawrydd ac mae'n lletya'r partneriaethau bwyd lleol Good Food in Greenwich, a Good Food Lewisham. Trosiant ADCG yw tua £1.2 miliwn.

**Newid i fod yn fenter**

Roedd holl weithgareddau ADCG wedi'u cyllido drwy grantiau am 26 blynedd rhwng 1982 a 2008. Yn 2008, oherwydd newidiadau yn systemau cyllido a grantiau llywodraeth a newidiadau yng nghyfraith pensiynau, roedd yn wynebu diffyg sylweddol yn ei chyllideb. Am fod diffyg yn ei chyllideb, nid oedd yn gallu cael benthyciadau, gorddrafftiau na grantiau; roedd yn gorfod masnachu. Ar ôl cael cyllid grant sylweddol dros gyfnod hir, roedd wedi cronni asedau sylweddol a bellach byddai'n canolbwyntio ar ffyrdd i droi'r rhain yn gyfleoedd i gynhyrchu incwm.

Rhoddwyd eu holl wybodaeth a sgiliau ar waith i chwilio am ffyrdd i wneud arian. Ystyriwyd cynnig gwasanaethau ymgynghoriaeth, gosod ystafelloedd ar rent, darparu hyfforddiant a chodi tâl am ddefnyddio eu cyfleusterau. Roeddent hefyd yn gorfod datblygu fel sefydliad; roedd yn rhaid i staff ddysgu sgiliau newydd ac roedd rhai wedi gorfod newid eu gwaith yn llwyr. Ond mae hyn wedi golygu bod nifer mawr o staff wedi tyfu a datblygu. Mae'r aelod staff a oedd yn gyfrifol am gysylltiadau cyhoeddus bellach yn rhedeg marchnad! Ar yr adeg hon, gwnaethant bob dim roedd ei angen i oroesi fel sefydliad.

**Cegin hyfforddi fasnachol 2008**

Sefydlwyd y Gegin Hyfforddi ar ystad ddiwydiannol yn 2008 a symudodd ADCG i swyddfeydd uwchben. Mae'r Gegin yn darparu gofod mawr ei angen lle mae busnesau bwyd yn gallu cychwyn a masnachu. Roedd ADCG wedi codi ei phroffil drwy sefydlu'r Gegin ac roedd hyn yn golygu ei bod yn gallu darparu cymorth ymarferol a syniadol i fusnesau. Roeddent hefyd yn gallu rhedeg eu gweithgareddau eu hunain mewn cysylltiad â bwyd heb wynebu nemor ddim risg. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cynhyrchu bwyd a darparu hyfforddiant. Mae'r Gegin yn galluogi ADCG i greu cyllid heb gyfyngiadau ac mae wedi'i helpu i ennill nifer o gontractau mawr yn y sector cyhoeddus.

Y cyntaf o'r rhain yn Hydref 2015 oedd contract iechyd cyhoeddus i redeg clybiau coginio a hybu amgylchedd bwyd iach. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar y bartneriaeth fwyd, ymrwymiadau o ran arlwyo iach, tyfu bwyd, mynediad at fwyd, tlodi bwyd, tyfu bwyd a digwyddiadau. Roedd ADCG wedi cynnwys ei gwaith yn rhedeg y bartneriaeth fwyd yn rhan o'i chyflwyniad am dendr felly roedd y cyfrifoldeb am redeg Good Food in Greenwich wedi dod yn rhan o'i chontract. Yn dilyn hynny, ym Mai 2016, enillodd gontract gan y tîm iechyd cyhoeddus yn Lewisham a oedd hefyd yn cynnwys cymorth i bartneriaeth fwyd Lewisham. Hefyd ym Mai 2016, enillodd gontract i redeg caffi hyfforddi Bracton sy'n cael ei gyllido drwy ganolfan therapi galwedigaethol ac sydd wedi'i leoli mewn ysbyty diogelwch canolig.

Cafwyd contract ychwanegol gan Adran Datblygu Economaidd Cyngor Bwrdeistref Frenhinol Greenwich sy'n ymwneud yn bennaf â datblygu menter. Yn yr achos hwn, roedd yn un o blith 30 o ddarparwyr, pob un yn chwarae ei ran drwy ddarparu gweithgareddau o fewn fframwaith ehangach. Mae rôl ADCG yn ymwneud yn bennaf â darparu cyfleoedd dysgu i oedolion drwy gwrs busnes cyffredinol a chwrs sgiliau bwyd. Mae hefyd wedi gwneud cynnig i ddarparu 'Dysgu fel teulu', drwy ddarparu cyrsiau ar gyflwyno bwyd solet, cael hwyl gyda bwyd etc. Ym mhob agwedd ar y gweithgareddau hyn, mae wedi defnyddio sgiliau a ddysgwyd yn y cyfnod pan oedd yn derbyn grantiau er mwyn creu incwm.

Maent yn dweud mai un ffactor allweddol wrth ennill y contractau hyn oedd eu gwybodaeth fanwl am y ffordd y mae'r system fwyd yn gweithio a'u dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng menter, sgiliau, ymgysylltu cymunedol, rheoli asedau ac iechyd cyhoeddus.

**Greenwich Kitchen (canolfan gymunedol)**

Yn sgil llwyddiant eu cegin hyfforddi, y cam nesaf oedd cymryd drosodd canolfan gymunedol a oedd wedi methu lle'r oedd cegin gynhyrchu yn rhan o'r safle. Maent wedi helpu i gynyddu'r defnydd o'r adeilad bedair gwaith drwy weithgareddau bwyd.Bellach mae'r ganolfan yn gartref i ffocws dosbarthu bwyd, Fareshare, clybiau coginio, hyfforddiant am ddim i fusnesau bwyd, clybiau cinio a chlybiau pobl hŷn. Dechreuwyd drwy asesu anghenion y gymuned ac wedyn cynnwys partneriaid i'w helpu i ddarparu rhaglen gweithgareddau amrywiol iawn. Ar sail eu llwyddiant yn y ganolfan gymunedol hon, mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi mewn adeilad arall i'w reoli ganddynt. Mae hwn yn fath o weithgarwch adfywio dan arweiniad y gymuned lle defnyddir bwyd yn gyfrwng i greu swyddi a chryfhau'r gymuned.

**Newham 2018**

Bellach, oherwydd yr enw da sydd ganddynt, mae datblygwyr yn cysylltu â nhw er mwyn cynnig gweithio mewn partneriaeth. Mae'r datblygwyr yn gweld bod ADCG yn bartner priodol i greu cysylltiadau cryf â'r gymuned. Ar ôl dod yn lesddeiliad ar adeilad newydd yn Newham yn 2018, bydd unwaith eto'n ceisio llywio canolfan lle mae bwyd yn brif elfen. Yn syml, byddant yn sefydlu busnes bwyd sy'n dangos yr holl agweddau ar yr agenda Lleoedd Bwyd Cynaliadwy. Felly, yn ogystal â siarad ag eraill am y ffordd i sefydlu a rhedeg busnes bwyd cynaliadwy, byddan nhw'n gwneud hynny eu hunain… felly mae'n gweithio. Wrth gymryd yr adeilad newydd, byddant yn wynebu'r cwestiwn 'Sut allwn ni gynnig y nifer mwyaf posibl o resymau i bobl dros ddod i ddefnyddio'r lle hwn?' Byddai'r ateb yn gallu cynnwys manwerthu, hyfforddi neu redeg caffi, er enghraifft. Felly mae bwyd wrth wraidd y ffordd y byddant yn ymgysylltu â phobl. Un agwedd y byddant yn edrych arni yw hyfforddiant i fusnesau bwyd.Byddant yn gofyn i bobl leol 'Beth rydych chi'n ei wneud gartref?' a 'Sut allwn ni eich helpu?' Byddant yn dechrau bob amser drwy geisio deall anghenion y gymuned leol.

**Ffynonellau cyllid**

Rhwng Tachwedd 2015 a Mawrth 2016, trosiant ADCG oedd £1.5 miliwn. Dim ond 2% o'r cyllid hwn oedd ar ffurf grantiau. Cafwyd 48% o'r cyllid o gontractau'r sector preifat (5 contract i gyd); a 50% o incwm masnachu. Rhwng Mawrth 2016 a Mawrth 2017, roedd y sefydliad wedi tyfu a hefyd wedi cynyddu ei gyllid grant i 10%.

Mae grantiau'n cael eu gweld yn fath o fuddsoddiad ac maen nhw'n galluogi'r sefydliad i wynebu risgiau. Ar y dechrau un, byddant yn gofyn 'Sut bydd y gwaith hwn yn dod yn ariannol gynaliadwy?' Cawsant grant gan SFP ar gyfer Cydgysylltydd i bartneriaeth fwyd Lewisham. Maent eisoes yn gofyn 'Pa dasgau eraill y bydd angen i'r cydgysylltydd eu gwneud er mwyn i hyn fod yn ariannol hyfyw?'

**Gwersi a ddysgwyd**

- Meddyliwch yn gynnar am gynaliadwyedd ariannol
- Treuliwch amser yn dod o hyd i'r sefydliadau iawn i fod yn bartneriaid â nhw
- Mae'n hollbwysig deall anghenion y gymuned leol
- Byddwch yn entrepreneur a byddwch yn barod i wynebu risgiau
- Byddwch mor barod â phosibl i ystyried syniadau
- Mae'n bwysig asesu prosiect yn drwyadl bob tro cyn cychwyn.

### 5.3.3 Gofyn i unigolion: London Food Link

Mae London Food Link (LFL) yn cael symiau bach o incwm a enillir drwy amrywiaeth o ddulliau.

**Rhoddion**

Bydd LFL yn gofyn am roddion yn ei holl gyhoeddiadau. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, ond gofynnir i bobl wneud rhodd.

**Tanysgrifiadau aelodaeth**

Mae dilynwyr a buddiolwyr LFL yn cael eu gwahodd i ddod yn gefnogwyr drwy wneud cyfraniadau rhwng £25 a £150 y flwyddyn yn ôl natur y sefydliad / unigolyn. Bydd y rhain yn mynd at dalu costau rhedeg y rhwydwaith. Bydd yr holl gefnogwyr yn derbyn cylchgrawn lliw o safon uchel drwy'r post, felly mae'r cyfraniad hwn yn helpu i gwrdd â'r gost honno hefyd.

Mae'r ymgyrch Real Bread (a gaiff ei lletya gan Sustain) hefyd yn derbyn cyfraniadau gan gefnogwyr. Mae'r incwm a geir drwy'r ffioedd hyn yn talu am gostau'r Cydgysylltydd sy'n hyrwyddo'r ymgyrch a'r gwahanol gefnogwyr, ac am ddarparu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r incwm hwn hefyd yn cyfrannu ychydig at dalu gorbenion staff, ond nid yw'n cwrdd â'r holl gostau hyn.

**Cyrsiau hyfforddi**

Mae LFL yn rhedeg sesiynau hyfforddi yn ôl y galw, ond mae rhaglen hyfforddi fwy sylweddol ar dyfu bwyd mewn ardaloedd trefol yn cael ei rhedeg gan ei chwaer rwydwaith – Capital Growth. Caiff y rhaglen ei hariannu'n rhannol drwy grantiau ac yn rhannol drwy godi tâl ar y cyfranogwyr.

**Digwyddiadau lle codir tâl**

Mae LFL yn rhedeg cyfres o ddigwyddiadau sy'n cynnwys nosweithiau rhwydweithio, sgyrsiau a gweithdai, e.e. 'Tonics and Teas' lle mae pobl yn dysgu sut i wneud diod eples. Yn yr achos hwn, roedd un o gefnogwyr LFL wedi darparu'r man cyfarfod am ddim. Roeddent wedi codi £30 am bob tocyn ac wedi gwneud elw o tua £400.

**Gwerthu nwyddau**

Mae LFL yn gwerthu mapiau, llieiniau sychu llestri a bagiau drwy ei siop ar-lein. Mae hefyd wedi cynnal arwerthiannau distaw mewn digwyddiadau.

**Gwersi a ddysgwyd**

- Os ydych am godi tâl aelodaeth, yna byddwch yn gorfod darparu gwasanaethau i aelodau a fydd yn costio arian i'w rhedeg! Mae ein rhwydweithiau'n cael eu rhedeg ar y sail bod y bobl sy'n talu yn cefnogi ein gwaith yn hytrach na'u bod yn disgwyl gweld darparu gwasanaethau o safon uchel.
- Mae angen ystyried yr amser mae staff yn ei dreulio yn rhedeg digwyddiadau a denu pobl i gymryd rhan, a gall hyn fod yn ffactor sylweddol.
- Mae llawer o fannau cyfarfod bach yn fodlon darparu lle yn ddi-dâl os gallwch roi sylw iddynt fel ffordd i ddiolch.

## 5.4 Ffocysau bwyd

Mae rhai partneriaethau bwyd SFP wedi ceisio sefydlu ffocysau bwyd amlswyddogaethol ochr yn ochr â'u partneriaeth. Ymysg y rhain y mae partneriaethau bwyd Caergrawnt, Durham, Greenwich a Food Nation yn Newcastle. Un o'r rhesymau dros sefydlu'r rhain oedd bod y partneriaethau bwyd am greu ffordd gynaliadwy i gyflawni nifer o wahanol amcanion ond un fantais ychwanegol yw eu bod yn creu incwm i'w sianelu'n ôl i'r bartneriaeth dros y tymor hwy. Er nad oes yr un o aelodau SFP wedi llwyddo eto i gyrraedd y nod o ailfuddsoddi arian yn eu partneriaeth, dangoswyd cryn ddiddordeb yn y modelau hyn ymysg aelodau'r Rhwydwaith.

### 5.4.1 Food Durham: Ffocws Bwyd Durham

Mae Ffocws Bwyd Durham yn cysylltu cynhyrchwyr lleol â busnesau sydd am brynu bwyd lleol (gwestai, bwytai, caffis etc.) gan ddarparu un pwynt archebu i fusnesau a ffordd haws i gyrraedd y farchnad i gynhyrchwyr.  Nid oes safle ffisegol gan y ffocws bwyd. Yn lle hynny, mae'n cael ei redeg mewn partneriaeth â dosbarthwr cyfanwerthu lleol dibynadwy sy'n gofalu am logisteg, casglu a dosbarthu. Mae Rheolwr Ffocws Bwyd (sydd â phrofiad helaeth o'r diwydiant bwyd) yn cael ei gyflogi ar gontract tri diwrnod yr wythnos gan Durham Community Action (DCA) ac mae'n gyfrifol am reolaeth a datblygiad cyffredinol y prosiect.  Mae'n cydweithio â chyflenwyr a phrynwyr i ennill

busnes newydd a darparu cymorth o ran marchnata, datblygu brandiau a meini prawf ansawdd. Mae'r cymorth i gynhyrchwyr lleol yn ymwneud yn bennaf â datblygu cynhyrchion, datblygu pecynnu, asesu masnachol, datblygu gwerthiant, cymorth gan lywodraeth a chydymffurfiaeth.

Sefydlwyd y Ffocws Bwyd fel busnes masnachu ar wahân: Food Durham Trading Cyf. Mae'n gwmni cyfyngedig â chyfranddaliadau cyfalaf sy'n eiddo'n llwyr i Durham Community Action. Roedd Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairnwedi darparu cyllid ar gyfer astudiaeth dichonoldeb yn 2015 a chyllid am dair blynedd wedyn i weithredu'r ffocws bwyd.Bydd y cyllid grant yn dirwyn i ben yn raddol o flwyddyn i flwyddyn felly yr her gyntaf iddo fydd ceisio parhau i gwrdd â chostau rhedeg y busnes ei hun. Y nod yw dod yn ariannol gynaliadwy erbyn blwyddyn 4.
Bydd unrhyw elw a wneir ar ôl hynny'n cael ei roi'n ôl i DCA drwy Gymorth Rhodd. Y gobaith yw y bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau cyllid craidd i Food Durham yn y dyfodol.

## 5.5 Cyllido gan y sector cyhoeddus

Mae nifer o aelodau SFP yn cael rhywfaint o'u cyllid gan y sector cyhoeddus (sylwer: mae un rhan o dair o'r aelodau o fewn y sector cyhoeddus). Ceir y cyllid hwn gan mwyaf drwy adran iechyd cyhoeddus yr awdurdod lleol neu mewn rhai achosion gan NHS (Scotland). Mewn llawer o achosion, mae'r cyllid hwn wedi darparu'r arian cyfatebol o 50% ar gyfer swyddi cydgysylltwyr SFP a gaiff eu cyllido drwy grant.

| **Ceisiadau am Grantiau Cydgysylltydd (Cylch 1 a 2)** | |
|---|---|
| Ceisiadau lle cafwyd arian cyfatebol llawn gan y sector cyhoeddus | 8 |
| Ceisiadau lle cafwyd arian cyfatebol rhannol gan y sector cyhoeddus | 8 |
| Ceisiadau lle na chafwyd arian cyfatebol gan y sector cyhoeddus | 8 |
| **Cyfanswm** | **24** |

Yn achos y rheini a gafodd arian cyfatebol rhannol gan y sector cyhoeddus, cafwyd arian cyfatebol ychwanegol gan ymddiriedolaethau lleol, unigolion, tariffau cyflenwi trydan a busnesau. Er mai un rhan yn unig o'r darlun cyllido yw hon, mae'n dangos pa mor bwysig yw cyllido gan y sector cyhoeddus i aelodau SFP. Wrth i'r sector cyhoeddus droi oddi wrth grantiau ac at gontractau ac oddi wrth gomisiynu ac at ddulliau mwy cydweithredol seiliedig ar leoedd fel Cynlluniau Cynaliadwyedd a Thrawsnewid, bydd yn bwysig bod aelodau SFP a'r mudiad cyfan yn sicrhau eu bod mewn lle da i allu cymryd rhan.

### 5.5.1 Bwyd Caerdydd

Yng Nghaerdydd, cafwyd arian cyfatebol yn wreiddiol ar gyfer y Cydgysylltydd SFP ar Gam 1 SFP gan Sefydliad Esmée Fairbairn a'r sefydliadau lletyol, sef Cyngor Caerdydd a thîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro ac mae'r sefydliadau lleol yn parhau i ddarparu cymorth ar ei gyfer. Mae Bwyd Caerdydd hefyd wedi sicrhau grant SFP Cam 2 cynaliadwy. Un o'r rhwystrau wrth weithredu o fewn y sector cyhoeddus yw bod y gallu i godi arian yn gyfyngedig. Er mwyn datrys hyn, mae wedi sefydlu Cronfa Elusennol 'Synnwyr Bwyd Cymru' sy'n rhan o Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro (endid cyfreithiol ar wahân sy'n cynnwys 300 o gronfeydd). Bydd hyn yn eu galluogi i wneud cais am arian y byddai'n anodd iddynt gael ato fel arall.

# 6. Cyllid ar gyfer cynghorau polisi bwyd – beth sy'n digwydd yn UDA

Bob blwyddyn mae'r Prosiect Rhwydweithiau Polisi Bwyd yn John Hopkins Center for a Livable Future yn cynnal arolwg o Gynghorau Polisi Bwyd (CPBau) ledled UDA. Yn yr arolwg yn 2016, o blith y cynghorau yn UDA a atebodd gwestiynau am eu cyllideb (n = 192), roedd mwyafrif (64%) y CPBau wedi nodi nad oedd eu cyllideb flynyddol yn fwy na $10,000 (Sussman a Bassarab 2017). Nododd 23 CPB yn UDA fod eu cyllideb rhwng $25,000 a $100,000 ac roedd 24 a oedd â chyllideb o fwy na $100,000 (ibid). Maent yn cael eu cyllid drwy grantiau gan lywodraethau taleithiol neu leol a gan sefydliadau preifat yn ogystal â rhoddion gan unigolion a rhoddion mewn nwyddau a gwasanaethau.

## 6.1 Sefydliadau preifat

Mae mwy o sefydliadau preifat yn UDA (o'u cymharu ag ymddiriedolaethau elusennol yn y DU) ac ar y cyfan maent yn ariannu gweithgarwch a fyddai'n cael ei ariannu gan y sector cyhoeddus yn y DU (Santo 2016). Yn y blynyddoedd diwethaf, mae sefydliadau wedi gweld bod CPBau yn ffordd effeithiol i sicrhau bod bwyd da ar gael ac maent yn cynyddu eu cyllid i fudiad y CPBau. Ddeng mlynedd yn ôl, dim ond llond llaw o CPBau oedd yn UDA a bellach mae 263 ohonynt (Sussman a Bassarab 2017).

Mae sefydliadau wedi cyfrannu at y gwaith ar systemau bwyd gan nifer o'r cynghorau hyn.Un maes allweddol yng ngweithgarwch y sefydliadau dros y degawd diwethaf yw cyllido gwaith ar atal gordewdra. Mae sefydliadau gofal iechyd wedi ymddiddori'n arbennig mewn cyllido prosiectau sy'n hybu mynediad at fwyd iach, maes polisi sy'n flaenoriaeth i nifer o CPBau; mae sawl sefydliad hyd yn oed wedi buddsoddi mewn gwaith i ysgogi a meithrin y gallu sydd gan CPBau. Er enghraifft, mae Sefydliad Iechyd Kansas wedi ariannu mwy na 20 o CPBau newydd yn Kansas (New Food Economy Rhagfyr 2017). Mae Livewell Colorado, sefydliad nid-er-elw sy'n derbyn cyllid gan Sefydliad Iechyd Colorado, wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu CPBau yn Colorado. Yn yr un modd, mae Community Food Strategies, a ariennir gan y sefydliad iechyd Blue Cross Blue ShieldNorth Carolina, yn darparu cymorth i feithrin gallu mewn CPBau yn North Carolina. Mae hefyd yn derbyn cyllid gan Sefydliad W.K. Kellogg i ddarparu grantiau micro i CPBau yn y dalaith. Yn nhalaith Michigan, mae'rRhwydwaith Cynghorau Bwyd Lleol (sydd hefyd yn cael ei ariannu gan Sefydliad W.K. Kellogg) yn rhoi grantiau bach i CPBau. Mae sefydliadau eraill, fel Cronfa John Merck a Sefydliad Henry P. Kendall, hefyd wedi gweld bod darparu cymorth i fudiadau cymdeithasol a datblygu rhwydweithiau yn ffordd werthfawr i feithrin systemau bwyd iach, teg a chynaliadwy.

## 6.2 Cyllido gan Lywodraeth

Mae tua un ym mhob pump o'r cynghorau yn UDA yn cael cyllid o ryw fath gan lywodraeth. Mewn rhai achosion, mae gweithgarwch CPBau yn dechrau ar lawr gwlad gyda chyllid gan sefydliadau preifat cyn troi at ffynonellau cyllid mwy sicr mewn llywodraeth leol neu daleithiol, fel a ddigwyddodd yn Baltimore (Santo, Yong, a Palmer 2014). Yn achos cynghorau eraill, fel Cyngor Bwyd ac Amaethyddiaeth New Mexico, roedd dyraniadau gan lywodraeth leol neu daleithiol wedi cyfrannu at waith a llwyddiant cychwynnol y cyngor cyn iddo droi at gymorth gan sefydliadau lleol (CLF 2015). Gall eraill gael cyllid gan lywodraeth at brosiectau penodol. Er enghraifft, mae Cyngor Polisi Bwyd Madison yn cael $300 000 gan ei lywodraeth leol i gynnal prosiectau manwerthu bwyd iach. Roedd y Cyngor hwn hefyd wedi cael $10,000 gan y Ddinas yn ddiweddar i gynnal gwaith y

Cyngor. Mae rhai CPBau hefyd wedi sicrhau grantiau ffederal ond mae'r broses o ymgeisio am y rhain yn un feichus ac, i lawer, nid yw'n werth yr ymdrech.

## 6.3 Ffynonellau ariannol eraill a chymorth o fath arall

Mae nifer mawr o CPBau (63% o'r rheini yng Ngogledd America) hefyd yn dibynnu'n helaeth ar gymorth o fath arall gan lywodraeth a sefydliadau nid-er-elw, a hynny'n cynnwys amser staff, gofod mewn swyddfeydd a chyfraniadau sylweddol gan wirfoddolwyr.

Prin yw'r CPBau sydd wedi ceisio troi'n gyrff sy'n creu incwm eu hunain. O'r 192 a ymatebodd i gwestiynau am gyllido yn UDA, dim ond 35 a oedd yn codi arian drwy roddion gan aelodau neu unigolion (Sussman a Bassarab 2017). Ceir ychydig bach o gymorth gan y sector corfforaethol ond cymorth mewn nwyddau neu wasanaethau yw hwn yn bennaf, neu gymorth at brosiectau penodol. Rhai enghreifftiau yw rhoddion o fwyd sydd heb ei werthu gan archfarchnadoedd i fanciau bwyd neu i sefydliadau sy'n mynd i'r afael â gwastraff bwyd.

Mae'r Prosiect Rhwydweithiau Polisi Bwyd wedi dechrau ar waith i ddylanwadu ar strategaethau rhoddwyr a chyrff cyllido er mwyn creu amgylchedd cyllido cefnogol. Nid yw'n rhannu grantiau ei hun ond, mewn modd tebyg i SFP, mae'n datblygu adnoddau, yn lletya gweminarau, yn rhedeg gweithdai ac yn eirioli dros CPBau.

# 7. Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

## 7.1 Cynllunio strategol a rheolaeth ariannol

- Trosolwg ar Adennill Costau Llawn – crynodeb hwylus sydd wedi'i ddarparu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Directory of Social Change – rhaglen hyfforddi ar godi arian
- Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO) – cynigir aelodaeth am ddim o'r NCVO i sefydliadau sydd ag incwm blynyddol gros o lai na £30,000 a bydd hyn yn rhoi mynediad i chi at amrywiaeth fawr o offer ac adnoddau ar gyfer cynllunio strategol a chodi arian.
- Offeryn Sbectrwm Incwm NCVO – mae'n darparu fframwaith i adolygu'ch gwahanol ffynonellau cyllid ac incwm presennol. Ar gael i bawb.
- Knowhownonprofit – trosolwg ar nifer o wahanol faterion strategol, yn cynnwys incwm a chyllid.
- Offeryn Dadansoddi Sustainable Sun Needs – prawf iechyd ar gyllid cynaliadwy ar gyfer eich sefydliad. Ar gael i danysgrifwyr Funding Central yn unig (gweler isod).

## 7.2 Ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau

- Funding Central – mae'n darparu mynediad am gost fach at filoedd o'r cyfleoedd diweddaraf i sicrhau cyllid a chymorth ariannol gan lywodraethau Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a hefyd o ffynonellau elusennol. Mae tanysgrifiad i'r gwasanaeth ar gael am ddim i sefydliadau sydd ag incwm blynyddol o lai na £100,000.
- www.trustfunding.org.uk – rhestr o fwy na 4,500 o ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau. Mae'n cynnig un wythnos o aelodaeth am £99 + TAW.

## 7.3 Cyllido gan y sector preifat

- www.companygiving.org.uk – manylion llawn am ddulliau rhoi arian cwmnïau a beth maent yn debygol o'i gyllido. Gallwch chwilio am gwmnïau sy'n cydymdeimlo â'ch amcanion. Codir £582 y flwyddyn am danysgrifiad.

## 7.4 Contractau a chyllid y sector cyhoeddus

- Cofrestrwch gydag Awdurdodau Lleol penodol i gael hysbysiadau
- Cofrestrwch gyda Procontract
- Defnyddiwch Wasanaeth Chwilio am Gontractau y llywodraeth i chwilio am gontractau yn y sector cyhoeddus

- www.governmentfunding.org.uk – mae'n cynnwys yr holl gynlluniau cyllido gan lywodraeth leol, ranbarthol a chenedlaethol mewn un man. Codir £582 y flwyddyn am danysgrifiad.

## 7.5 Dull y fenter gymdeithasol

- School for Social Entrepreneurs – cyrsiau hyfforddi
- Startup Britain – ymgyrch gan entrepreneuriaid ar ran entrepreneuriaid. Mae'n cynnwys sefydliadau cymorth lleol.
- UnLtd – mae'n darparu grantiau i'r rheini sydd am ddod yn entrepreneuriaid
- Inspire2enterprise – gwasanaeth cymorth sydd ar gael am ddim i'r rheini sy'n cychwyn neu'n tyfu menter.
- Setting up a social enterprise – canllawiau gan lywodraeth ar sefydlu menter gymdeithasol, yn cynnwys ffurflenni cyfreithiol.
- The Hive – menter cymorth busnes a sefydlwyd gan Co-operatives UK a TheCooperative Bank.

## 7.6 Cyfleoedd presennol

- I gael diweddariadau rheolaidd yn eich ardal, cofrestrwch i dderbyn yr e-gylchlythyr gan y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol lleol.
- Cofrestrwch i dderbyn e-gylchlythyr ar godi arian gan Third Sector
- Diweddariadau wythnosol ar iechyd gan The King's Fund
- Bwletin SFP

## 7.7 Adnoddau ar-lein / cyllido torfol

- Localgiving.com – adnodd ar-lein i elusennau lleol a grwpiau cymunedol sydd am godi arian, hybu ymwybyddiaeth a sicrhau cymorth (codir ffioedd)
- Justgiving.com – adnodd ar-lein ar gyfer codi arian (codir ffioedd)
- Justtextgiving – mae'r cwmni darparu ffonau symudol Vodafone a'r wefan rhoddion JustGiving wedi lansio gwasanaeth newydd a fydd, yn ôl ei sefydlwyr, yn galluogi'r holl elusennau cofrestredig yn y DU i godi arian am ddim drwy roddion testun
- Everyclick.com – adnodd ar-lein ar gyfer codi arian (codir ffioedd)
- My Donate – gwasanaeth codi arian rhad ac am ddim sy'n cael ei redeg gan BT lle mae pob ceiniog yn mynd at yr elusen.

## 7.8 Cynghorau polisi bwyd

- *Funding Food Policy Councils: Stories from the Field* (2015). Baltimore, MD: Johns Hopkins Center for a Livable Future.
- Lathbury Girard, M., Ha-Ngoc,T., Leo Pollock, L. (2015). Funding Food Policy Councils: Lessons from the Field [gweminar]. Baltimore, MD: Johns Hopkins Center for a Livable Future.

- Sussman, L. a Bassarab, K. (2017). *Food Policy Council Report 2016*. Baltimore, MD: Johns Hopkins Center for a Livable Future.
- Workshop on Funding: Sustaining Your Council (2014). Baltimore, MD: Johns Hopkins Center for a Livable Future.